Prosiect Ymchwil Gweithredol Asesu Ffurfiannol GwE a Shirley Clarke

Timau Ymchwil Haen 2

Adroddiad Gweithredu ac Effaith

Medi 2018- Gorffennaf 2019

Cynnwys

	Tud.
Rhagarweiniad	3
Ysgolion Haen 2 a dyddiadau allweddol gweithredu	4
Meysydd ffocws yr ymchwil gweithredol, dulliau mesur effaith	5
Geithredu - cyffredinol	6
Crynodeb o sylwadau athrawon Haen 2 ar weithrediad ac effaith meysydd ymchwil y prosiect	8
Crynodeb o ganfyddiadau holiaduron Prifysgol Bangor	18
Crynodeb o waith ymchwil PhD Prifysgol Bangor i effaith y prosiect	19
Canfyddiadau Estyn mewn ysgolion Haen 2 yn ystod y cyfnod ymchwilio	32
Clo a Chamau nesaf	33
Atodiad *Crynodeb o ganfyddiadau Meysydd Arolygu 2 a 3 mewn adroddiadau arolygiadau Estyn ysgolion Cynradd Haen 2 rhwng Ionawr a Gorffennaf 2019*	34

Rhagarweiniad

Ers Hydref 2017, mae GwE yn arwain prosiect ymchwil gweithredol rhanbarthol ym maes asesu ffurfiannol mewn cydweithrediad gyda Shirley Clarke. Gweithredir y prosiect mewn 3 haen gydag athrawon yn gweithio mewn timau ymchwil gweithredol. Anelir at gael dau athro o bob ysgol yn rhan o'r prosiect erbyn Haf 2020.

Cynhelir y prosiect mewn ymateb i amcanion lleol a chenedlaethol, yn benodol yr angen i:

- Godi a chysoni safonau addysgu ar draws y rhanbarth a lleihau amrywiad mewn safonau addysgu mewn ysgolion;
- Gwreiddio egwyddorion addysgu effeithiol ar draws bob ysgol ledled y rhanbarth
- Rhoi pwyslais cryf ar addysgeg, addysgu effeithiol ac ymchwil gweithredol ;
- Sicrhau defnydd da neu well o strategaethau asesu ffurfiannol yn holl ysgolion y rhanbarth i godi safonau;
- Datblygu ysgolion fel sefydliadau dysgu sy'n cynnal ymchwil gweithredol effeithiol;
- Datblygu cynaliadwyedd ysgolion i hunan wella ac i gefnogi rhwydweithio ysgol i ysgol;
- Ymateb i agenda genedlaethol lleihau baich gwaith athrawon drwy ddefnydd effeithiol o strategaethau Asesu Ffurfiannol;
- Paratoi at Gwricwlwm i Gymru e.e. 4 diben y Cwricwlwm i Gymru a'r 12 egwyddor addysgegol;
- Ymateb i ofynion 5 dimensiwn y safonau proffesiynol addysgu ac arweinyddiaeth - addysgeg, arweinyddiaeth, dysgu proffesiynol, arloesi a chydweithredu.

Gweithredu'r prosiect:

Haen 1	Hydref 2017 – Tachwedd 2018	54 athro o 27 o ysgolion a ddewiswyd drwy broses fanwl o ymgeisio a chyfweld. Cydweithio fel timau ymchwil dan arweiniad GwE a Shirley Clarke
Haen 2	2018 – 19 blwyddyn academaidd	386 o athrawon o 193 o ysgolion yn cydweithio dan arweiniad GwE ac ysgolion Haen 1, ac mewn cydweithrediad gyda Shirley Clarke
Haen 3	2019-20 blwyddyn academaidd	Gweddill ysgolion y rhanbarth yn cydweithio dan arweiniad GwE ac ysgolion Haen 1 a 2 ac mewn cydweithrediad gyda Shirley Clarke

Ysgolion Haen 2

Gwahoddwyd ysgolion y rhanbarth i wneud cais i ddau athro i fod yn rhan o Haen 2. Derbyniwyd ceisiadau llwyddiannus gan 386 o athrawon o 193 o ysgolion: 199
168 o ysgoloion cynradd
22 ysgol uwchradd
3 ysgol arbennig

Dyddiadau gweithredu allweddol	
Diwrnod Hyfforddi 1 dan arweiniad GwE ac ysgolion Haen 1	Medi 29,30 2018
Cyflwyniad gan Shirley Clarke ac Arddangosfa o waith athrawon Haen 1	Tachwedd 15,16 2018
Sesiwn Adolygu 1 yn yr ysgol arweiniol Haen 1	Ionawr 14-31 2019
Diwrnod Hyfforddi 2 dan arweiniad GwE ac ysgolion Haen 1	Ebrill 3,4 2019
Sesiwn Adolygu 2 yn yr ysgol arweiniol Haen 1	Mehefin 24 – Gorffennaf 12, 2019
Cyfres o 12 o arddangosfeydd o waith ysgolion Haen 2 ar draws y rhanbarth	Hydref 9 - 24, 2019

Yn ogystal â hyn, cynhaliwyd cynhadledd penaethiaid i holl benaethiaid y rhanbarth Mawrth 29, 2019. Roedd hwn yn hyfforddiant uniongyrchol gan Shirley Clarke. Mynychodd 365 - penaethiaid yn bennaf, ond hefyd ymgynghorwyr GwE a staff ysgolion addysg Caer a Bangor (CaBan)

Meysydd ymchwil

Dros gyfnod o flwyddyn, gofynnwyd i'r athrawon arbrofi gyda'r agweddau canlynol yn eu dosbarthiadau ar sail canfyddiadau ymchwil Shirley Clarke:

1. Meddylfryd o Dwf, 'Pwerau Dysgu', Diagram parth dysgu ('bullseye')
2. Partneriaid Trafod
3. Cwestiynu er mwyn canfod gwybodaeth flaenorol
4. Deilliannau Dysgu -allan o gyd-destun, pryd i'w cyflwyno, sut i'w cofnodi, agored a chaeedig
5. Meini Prawf Llwyddiant - disgyblion yn eu pennu ar y cyd, MPLL gorfodol a dewisol
6. Dileu grwpiau gallu
7. Dileu gwobrwyo cymharol
8. Trafod enghraifft dda o waith a sut mae'n edrych. Sicrhau bod disgyblion yn gweld cymaint o enghreifftiau o 'ardderchog' â phosib
9. Adborth llafar ac ysgrifenedig, cyn, yn ystod ac ar ôl gwers. Arbrofi gyda gwahanol strategaethau e.e. Seibiannau dysgu ar ganol gwers, hunan asesu, asesu ac adborth cymheiriaid, defnyddio crafwr i drafod llwyddiannau a gwelliannau, adborth ysgrifenedig, cyfarfod 1-1, drafftio.
10. Lleihau llwyth gwybyddol

Gofynnwyd i'r athrawon werthuso'n gyson effaith yr uchod ar eu haddysgu ac ar ddysgu eu disgyblion

Mesur effaith

Defnyddiwyd amrywiaeth o ffynonellau gwybodaeth i fesur effaith a chefnogi ysgolion, yn cynnwys:

- Holiaduron athrawon a disgyblion ar gychwyn a diwedd y flwyddyn - mae Prifysgol Bangor yn cydweithio gyda GwE drwy gydol y prosiect ar ddadansoddi ac adrodd ar y prif ganfyddiadau
- Yn benodol ar gyfer Haen 2 mae myfyriwr PHD yn ymchwilio i werthuso effaith y prosiect o safbwynt economeg iechyd gan gynnwys effaith ar les a gwerth am arian
- Cyfarfodydd adborth ac adolygu penodol yn ystod y flwyddyn - dan arweiniad GwE ac ysgolion Haen 1
- Trafodaethau a chydweithio gydag Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant ysgolion unigol y prosiect.
- Adroddiadau Estyn ysgolion y prosiect, gan edrych yn bennaf ar Feysydd Arolygu 2 a 3

Gweithredu

Aeth ail flwyddyn y prosiect gydag ysgolion Haen 2 rhagddi'n effeithiol. Bu 440 o athrawon Haen 1 a 2 o 220 ysgol ar draws y rhanbarth yn rhan o'r prosiect yn ystod 2018-19. Mae effaith gweithgarwch y prosiect felly wedi cyrraedd oddeutu 11,000 o ddisgyblion yn uniongyrchol ar draws y rhanbarth (seiliedig ar bob athro yn addysgu 25 o ddisgyblion ar gyfartaledd)

Mae gwaith ymchwil gweithredol sylweddol wedi digwydd a nodir effeithiau cadarnhaol iawn hyn ar agweddau disgyblion at ddysgu, eu hannibyniaeth fel dysgwyr a safon eu gwaith.
Nodir hefyd agweddau cadarnhaol ar ethos dosbarthiadau, arferion addysgu a darpariaeth, disgwyliadau athrawon a lleihad mewn baich gwaith athrawon.

Mae ymateb yr athrawon wedi bod yn gadarnhaol iawn. Crynhoir prif sylwadau athrawon am weithredu a'i effaith fesul maes ymchwil ymhellach ymlaen yn yr adroddiad. Nodir hefyd yr ychydig agweddau sydd wedi bod yn fwy heriol.

Sylwadau cyffredinol athrawon

Agweddau cadarnhaol a nodwyd:

- Gwaith ymchwil y prosiect yn cefnogi'n effeithiol eu paratoadau ar gyfer Cwricwlwm i Gymru, yn arbennig felly yng nghyd-destun gwreiddio'r 4 Diben a'r 12 egwyddor addysgegol
- Athrawon wedi rhoi mwy o sylw i ymchwil ym maes addysg wrth ystyried a datblygu eu harferion ar lawr dosbarth.
- Mwynhad gweithio ar brosiect sydd ag ymchwil cadarn y tu ôl iddo
- Y prosiect yn ddatblygiad proffesiynol gwerthfawr a gwerthfawrogwyd y cydweithio gydag ysgolion Haen 1 a'u harweiniad
- Gwerthfawrogiad o'r profiad o weithio ar draws y rhanbarth a thraws sector.
- Y rhan fwyaf yn gweld effaith gadarnhaol ar eu hymarfer ac ar eu disgyblion mewn cyfnod byr. Mae hyn yn ei dro wedi creu brwdfrydedd ac awydd i ddatblygu ymhellach.
- Athrawon yn llawn sylweddoli mai catalydd yw'r flwyddyn gyntaf ac y bydd yn cymryd amser i wreiddio a rhaeadru holl agweddau'r ymchwil gweithredol.

Rhai heriau a nodwyd :

- Er yn llawn sylweddoli mai prosiect tymor hir sydd yma i ysgolion, mae sawl ysgol wedi cael anawsterau wrth hyfforddi staff eraill a sicrhau cysondeb gweithrediad ar draws ysgol.
- Nodwyd diffyg amser a maint ysgol/staff fel y prif ffactorau yma.
- Rhaeadru i gymorthyddion yn her, eto oherwydd diffyg amser
- Nododd tua hanner yr ysgolion uwchradd bod cyd-destun y prosiect yn gogwyddo mwy tuag at y cynradd
- Mae rhai agweddau o'r ymchwil wedi profi'n fwy heriol oherwydd trefniant neu ddiwylliant presennol ysgol; yn benodol arbrofi gyda dileu grwpio gallu a gwobrwyo cymharol. Wedi dweud hyn, mae'r rhan fwyaf o'r ysgolion wedi arbrofi yn y meysydd hyn a chanfod effaith cadarnhaol.
- Mae ychydig o ysgolion uwchradd wedi canfod gweithredu partneriaid trafod yn heriol, gan fwyaf o ran trefniant dosbarthiadau
- Cynnal momentwm a pharhau gyda'r gwaith o raeadru a sicrhau cysondeb ar draws ysgolion. Mae hyn oherwydd diffyg amser ond hefyd cynhwysedd.

Ymrwymiad ysgolion

Mae ymrwymiad ysgolion Haen 2 a chefnogaeth Ysgolion Haen 1 i'r gwaith ymchwil gweithredol wedi bod yn dda iawn. O ystyried maint y prosiect, mae presenoldeb athrawon mewn sesiynau hyfforddiant, cyfarfodydd adolygu a'r arddangosfeydd terfynol wedi bod yn uchel iawn gyda 98.5% o'r ysgolion yn cwblhau'r flwyddyn. Ni chwblhaodd dwy ysgol uwchradd ac un ysgol arbennig y flwyddyn.

Roedd presenoldeb yn uchel iawn ar gyfer bob sesiwn hyfforddi a'r cyfarfodydd adolygu fis Ionawr. Y ganran presenoldeb isaf oedd y cyfarfodydd adolygu olaf ddiwedd Mehefin a dechrau Gorffennaf. Nodwyd ymrwymiadau a gweithgarwch diwedd tymor am y prif resymau dros fethiant ysgolion i fynychu.

Cynhaliwyd 12 o arddangosfeydd ar draws y rhanbarth o waith ysgolion Haen 2 a'i effaith fis Hydref 2019 . Mae'r canrannau a arddangosodd fel a ganlyn:
Cynradd 86%
Uwchradd 45%
Arbennig 100%

Fel nodwyd eisoes, roedd teimlad ymysg rhai athrawon ysgolion uwchradd bod y prosiect yn fwy addas i ysgolion cynradd. Wedi dweud hyn, bu i lawer o athrawon uwchradd yn arbrofi gyda sawl gyda sawl agwedd o asesu ffurfiannol a chanfod effaith gadarnhaol

Rhaeadru a chysoni arferion ar draws ysgol

Fel nodwyd uchod, catalydd yw blwyddyn gyntaf y prosiect ac nid oedd disgwyl i bob agwedd o asesu ffurfiannol fod wedi gwreiddio ar draws ysgol gyfan yn y cyfnod yma. Mae pob ysgol wedi bod ar daith unigol yma gyda rhaeadru yn amrywio o ysgol i ysgol. Bydd y gwaith o raeadru a chysoni yn parhau dros y blynyddoedd i ddod, gyda chefnogaeth GwE.

Lle mae rhaeadru a chysoni arferion wedi bod yn llwyddiannus, mae athrawon y prosiect wedi sicrhau dyfnder personol o ddealltwriaeth ac arfer. Mae eu ysgolion hefyd wedi sicrhau amser penodol a rheolaidd er mwyn eu galluogi i arwain, monitro a chefnogi cydweithwyr. Maent felly yn gwybod yn dda am feysydd penodol sydd angen datblygiad pellach er mwyn sicrhau cysondeb ac yn gallu gweithredu'n hyderus ar hynny. O ganlyniad i hyn, mae arferion da a chyson naill ai wedi datblygu'n dda neu yn datblygu'n dda ar draws ysgolion. Mae hyn wedi cael effaith gadarnhaol ar ddysgu'r disgyblion.

Lle nad yw'r rhaeadru a'r cysoni wedi gweithio cystal hyd yma:

- Mae athrawon wedi ceisio rhaeadru gormod rhy sydyn,
- Nid yw athrawon wedi arbrofi digon eu hunain er mwyn datblygu arbenigedd a hyder cyn rhaeadru,
- Diffyg amser digonol wedi ei neilltuo ar gyfer hyfforddi a chefnogi staff eraill,
- Mae sesiwin hyfforddi wedi digwydd fel digwyddiad ynysig heb ddigon o amser wedi ei neilltuo i ddilyniant er mwyn cefnogi cydweithwyr, monitro effaith a chynnal momentwm.

Mae hyn wedi golygu nad yw dealltwriaeth staff eraill o fewn ysgol eraill ddigon dwfn l i allu gweithredu'n effeithiol a chyson. Hefyd, mae wedi golygu nad oes gan athrawon y prosiect ddarlun ddigon clir o ansawdd arferion athrawon drwy'r ysgol i allu cefnogi a chysoni'n effeithiol. Yn yr achosion hyn, mae effaith y prosiect ar draws yr ysgol yn gyfyngedig hyd yn hyn.

Crynodeb o sylwadau athrawon Haen 2 ar weithrediad ac effaith gwahanol feysydd ymchwil y prosiect -

Mae'r sylwadau isod yn seiliedig ar drafodaethau athrawon Haen 2 y prosiect mewn cyfarfodydd adolygu yn yr ysgolion Haen 1, cyfarfodydd adolygu ysgol ganolog gyda'u Hymgynghorydd Cefnogi Gwelliant GwE a'u cyfraniadau yn yr rddangosfeydd terfynol.

Roedd mannau cychwyn athrawon y prosiect yn amrywio ar draws y meysydd ymchwil. Roedd rhai unigolion ac ysgolion wedi gwreiddio rhai strategaethau eisoes ac felly ail ymweld, mireinio a chysoni sydd wedi digwydd. Mae eraill wedi gweithio ar agweddau o'r newydd. Trafodir yr agweddau ymchwil ar wahân isod.

Meddylfryd o Dwf ,'pwerau dysgu', diagram 'bullseye' (parth dysgu)

Meddylfryd o Dwf

- Ymchwilio i waith Carol Dweck a gwreiddio meddylfryd o dwf fel athro yn y lle cyntaf.
- Defnyddio llyfr Katherine Muncaster '*Growth Mindset Lessons'* fel arweiniad wrth gyflwyno gwersi a llyfrau megis *'Giraffes can't dance , 'My Fantasic Elastic Brain'*
- Creu arddangosfa Meddylfryd o Dwf mewn ystafell dosbarth neu ymhob dosbarth drwy'r ysgol
- Defnyddio clipiau fideo i ennyn trafodaeth e.*e. gyrwyr tacsi Llundain, Austin's Butterfly.*
- Defnyddio gwasanaethau ysgol gyfan er mwyn cyflwyno agweddau o Feddylfryd o Dwf neu bwerau dysgu i'r disgyblion
- Cyfeirio at 'Feddylfryd o Dwf' mewn trafodaethau gyda disgyblion wrth eu gwaith - newid geirfa wrth drafod gyda disgyblion
- Dathlu camgymeriadau a hyfforddi disgyblion i weld her fel rhywbeth naturiol. *E.e*. *defnydd o 'Bwll Dysgu' John Nottingham*
- Dathlu camgymeriadau campus fel cyfleoedd dysgu newydd
- Rhoi ystyriaeth i ieithwedd a ddefnyddir i hybu hyder disgyblion e.*e. grym 'eto' defnyddio - " dwyt ti ddim wedi meistroli hyn yn llawn….eto"*
- Cynnal diwrnod/ digwyddiad ysgol gyfan 'Meddylfryd o Dwf' 'meddwl gwyrdd'
- Cynllunio unedau o waith / llyfrynnau e.e. dysgu methu, ffynnu, cyplysu gydag ABaCh
- Cyflwyno Meddylfryd o Dwf fel rhan o baratoadau ar gyfer arholiadau
- Cyplysu gyda gwaith hyfforddi ('Coetsio') ac ymwybyddiaeth ofalgar
- Bu'n brif ffocws cydweithio nifer o glystyrau ar draws y rhanbarth gan gynnwys gwaith
- pontio Cynradd/ Uwchradd
- Cynnal hyfforddiant i gymorthyddion dysgu ac mewn ychydig ysgolion i oruchwylwyr amser cinio
- Athrawon rhai ysgolion yn herio eu hunain ddysgu sgiliau newydd a rhannu hyn gyda disgyblion - e.e. chwarae piano, dysgu iaith newydd
- Cynnal sesiynau codi ymwybyddiaeth rhieni a/ neu lywodraethwyr

Pwerau dysgu

- Y rhan fwyaf o'r ysgolion cynradd wedi llunio cymeriadau a storïau i gyd-fynd â gwahanol bwerau dysgu. Ysgolion hefyd wedi addasu ar gyfer disgyblion hŷn cynradd a disgyblion uwchradd. *E.e. defnyddio emojis neu symbolau mwy addas i oedran.*
- Treialu 2/3 pŵer dysgu yn y lle cyntaf ac wedyn ehangu i weddill yr ysgol.

- Clystyrau wedi cydweithio ar ddatblygiad cymeriadau ac adnoddau addysgu ar gyfer y pwerau er mwyn sicrhau cysondeb o fewn clystyrau ac wrth drosglwyddo o'r cynradd i'r uwchradd.
- Nifer o ysgolion wedi datblygu hyn ymhellach a chyfeirio at 'bwerau dysgu' mewn trafodaethau gyda disgyblion wrth eu gwaith, newid yr eirfa a ddefnyddir wrth drafod dysgu gyda disgyblion.

Diagram Parthau Dysgu (" bullseye")

- Llawer wedi defnyddio'r diagram hwn fel sail i drafodaeth gyda disgyblion wrth iddynt ddewis tasgau ac i drafod a ydynt yn herio eu hunain yn ddigonol wrth eu gwaith. Nododd pob ysgol ei fod yn offeryn syml ond defnyddiol iawn i drafod dysgu gyda disgyblion a bod ei effaith yn bellgyrhaeddol.

Effaith a nodwyd gan athrawon:

Mae disgyblion yn:

- arddangos mwy o gwytnwch, dyfalbarhad ac annibyniaeth
- gweld gwerth camgymeriadau fel cyfle i ddysgu
- fwy parod i ddyfalbarhau pan fo gwaith yn heriol, gweld gwerth canfod gwaith yn anodd. Nodwyd mewn rhai ysgolion bod hyn yn arbennig o wir ymysg bechgyn oedd, cyn hyn, yn gyndyn o ymdrechu a dyfalbarhau
- fwy parod i herio eu dysgu eu hunain ar sail trafodaethau Parth Dysgu / Pwll dysgu
- fwy parod i roi cynnig ar bethau, i gymryd risg gyda'u dysgu
- fwy positif/ cyffrous am eu gwaith
- mwynhau heriau
- dyfalbarhau'n well
- trafod eu gwaith a'u dysgu yn hyderus
- cymryd mwy o gyfrifoldeb dros herio eu hunain yn eu dysgu
- cefnogi ei gilydd yn dda
- gallu siarad am eu dysgu a beth sydd yn eu herio
- ymateb yn well i adborth - ddim yn ei weld fel 'gweld bai' ond yn hytrach fel 'cyfle i wella '
- arddangos agwedd gadarnhaol at gamgymeriadau e.e. defnyddio 'ddim yn gallu gwneud 'eto'
- ymddwyn yn well
- adnabod eu cryfderau personol a nodi'r camau nesaf yn eu dysgu yn hytrach na bod ag agwedd "mae'n ddigon da".

Hefyd:

- y parth dysgu wedi rhoi iaith gyson i ddisgyblion wrth ddisgrifio a thrafod eu dysgu.
- athrawon yn fwy ymwybodol o'u defnydd o eirfa er mwyn annog a chanmol disgyblion
- rhieni yn mynegi newid yn eu plant o ran agwedd at waith, dyfalbarhau, hyder.

Partneriaid Trafod

Bu i bron bob ysgol yn arbrofi gyda'r agwedd hon a chanfod effaith gadarnhaol iawn. O'r holl agweddau ymchwil, effaith hwn oedd y mwyaf grymus.
Roedd gan yr ysgolion fannau cychwyn gwahanol. Nifer wedi ail ymweld a gwreiddio arferion yn ddyfnach / ail lawnsio yn yr ysgol. Ni fu i ychydig o ysgolion uwchradd arbrofi gyda'r agwedd yma.

Arferion a weithredwyd:

- Dewis partneriaid trafod ar hap
- Newid yn wythnosol ar y cyfan yn y cynradd. Newid yn wythnosol gan fwyaf, rhai fesul pythefnos. Yr ysgolion uwchradd a arbrofodd yn gyffredinol yn newid yn llai aml e.e. fesul uned o waith/hanner tymor gan fod hyn yn gweddu yn well i'w trefniant
- Arddangos Partneriaid Trafod ar y wal
- Pennu Meini Prawf Llwyddiant ar y cyd ar gyfer bod yn Bartner Trafod effeithiol
- Cyflwyno 'neges diolch ' i Bartner Trafod ar ddiwedd y cyfnod cydweithio
- Rhai wedi defnyddio grwpiau o 3 i gefnogi dysgwyr penodol
- Rhai dosbarthiadau Cyfnod Sylfaen yn gweithredu partneriaid ar y mat ar ddechrau neu ddiwedd sesiwn yn unig oherwydd trefniant dosbarth. Eraill yn dewis grwpiau gallu cymysg ar hap yn cynnwys partneriaid trafod ac yn eu gweithredu'n barhaus.
- Ychydig wedi cyflwyno Partneriaid Trafod a'r rhesymeg y tu ôl iddo i rieni
- Y defnydd o Bartneriaid Trafod wedi cynyddu yn ystod y flwyddyn. Yn gyffredinol . dechreuwyd gyda defnydd ar ddechrau a diwedd gwers. Ond ymestynnwyd hyd i ddefnydd mewn seibiannau dysgu i drafod, hunan asesu a rhoi adborth, gan ddefnyddio'r craffwr yn amlach.

Effaith a nodwyd gan athrawon:

- Datblygiad sgiliau cymdeithasol ar sawl lefel - creu perthynas dda rhwng disgyblion.
- Disgyblion yn fwy hyderus i rannu eu syniadau
- Disgyblion yn cymryd rhan fwy gweithredol yn eu dysgu - neb yn eistedd yn ôl
- Datblygiad hyder ac annibyniaeth
- Enghreifftiau penodol o effaith gadarnhaol ar unigolion e.e. disgyblion gyda hunan ddelwedd isel, disgyblion swil, tawedog
- Athrawon yn meddu ar well dealltwriaeth a gwybodaeth ar gyfer symud disgyblion ymlaen.
- Gwell ymddygiad oddi fewn a thu allan i'r dosbarth

Cwestiynu er mwyn canfod gwybodaeth flaenorol

Arferion a weithredwyd:

- Gwnaeth athrawon ddefnydd cynyddol o bennod 5 Llyfr "*Outstanding Formative Assessment : Culture and Practice"* Shirley Clarke fel sail i'w gwaith ymchwil yn ystod y flwyddyn gan ddefnyddio'r enghreifftiau yn y bennod i gynllunio eu cwestiynu
- Cyplysodd nifer o athrawon y cwestiynu gyda defnydd o gartwnau cysyniad, byrddau gwyn bach, Padlet
- Nododd llawer bod paratoi cwestiynau ymlaen llaw yn ddefnyddiol
- Defnyddiodd nifer o athrawon weithgareddau cyffelyb ar gyfer seibiannau dysgu ynghanol gwersi ac fel gweithgareddau cloi gwers hefyd a chanfod hyn yn ddefnyddiol
- Roedd rhai wedi adeiladu banc o adnoddau/ gweithgareddau
- Llawer yn nodi ei fod yn ffordd arbennig o dda i gael y disgyblion i egluro eu hunain a rhoi rheswm dros eu hymatebion/barnau

Effaith a nodwyd gan athrawon:

- disgyblion yn gwneud cynnydd da ac yn gallu i symud yn sydyn drwy waith cwrs
- gwybodaeth disgyblion yn fwy cadarn oherwydd adolygu parhaus
- gwell dealltwriaeth gan ddisgyblion, gwell ffocws a chanolbwyntio
- gwell ymgysylltiad mewn gwersi, disgyblion yn herio eu hunain fwy
- disgyblion yn fwy annibynnol ac yn fwy parod i rannu eu syniadau gan fod hinsawdd y dosbarth yn caniatáu hyn
- gwell gwybodaeth gan athrawon o gyrhaeddiad a dealltwriaeth disgyblion, hyn wedyn yn arwain y dysgu ac addysgu sy'n dilyn
- athrawon yn addasu cyfeiriad y wers ar unrhyw bryd yn hytrach na bwrw ymlaen gyda chynllun gwers a baratowyd ymlaen llaw.

Deilliannau Dysgu
(allan o gyd destun, pa bryd i'w cyflwyno, cofnodi'n gryno , agored a chaeëdig)

Arferion a weithredwyd:

- O ran sicrhau Deilliannau Dysgu (DD) allan o gyd-destun, roedd nifer o'r ysgolion wedi ail ymweld yn sgil yr hyfforddiant er mwyn mireinio geiriad eu DD a chysoni arferion
- Llawer wedi arbrofi gyda chyflwyno DD mwy cryno a'u cyflwyno pan mae'r amser yn iawn mewn gwers yn hytrach nag yn fecanyddol ar gychwyn bob gwers.
- Nifer hefyd wedi arbrofi gyda llunio DD cryno, peidio â chofnodi DD mewn llyfrau, neu gofnodi'n gryno fel teitl. Rhai ysgolion wedi penderfynu parhau i gofnodi mewn llyfrau, rhai yn cofnodi DD ar y wal neu fwrdd gwyn yn unig
- Nodir mai'r egwyddor bwysig yw bod y DD yn *" weledol yn barhaus"* - boed mewn llyfr neu ar wal neu siart fflip
- Nododd lawer o athrawon bod eu dealltwriaeth o DD agored a chaeedig wedi dyfnhau a'u bod wedi dechrau arbrofi gyda'r rhain yn hwyrach yn y flwyddyn addysgol

Effaith a nodwyd gan athrawon:

- Mwy o ffocws gan athrawon a disgyblion ar y sgiliau i'w datblygu mewn gwersi
- Wedi lleihau cofnodi mewn llyfrau a sicrhau mwy o gyfleoedd i ddisgyblion bennu MPLl
- O sicrhau bod y DD allan o gyd -destun , mae'r Meini Prawf Llwyddiant wedyn yn drosglwyddadwy wrth ail ymweld â'r sgil.
- Disgyblion yn arddangos gwell dealltwriaeth o beth maent yn ei ddysgu a pham
- Gwell ffocws i adborth a hunan asesu ac asesu cymheiriaid
- Mwy o berchnogaeth ar eu dysgu, gallu gwella eu gwaith yn fwy hyderus
- Disgyblion yn gweithio ar lefel briodol ac yn gwneud cynnydd yn eu dysgu gan eu bod yn gwybod yn iawn beth ydy eu camau dysgu nesaf.
- Athrawon yn meddwl mwy am y dysgu maen nhw eisiau ei weld
- Cofnodi DD yn gryno yn golygu bod disgyblion yn deall yn well beth sy'n ddisgwyliedig
- Peidio â chofnodi DD mewn llyfrau wedi golygu bod disgyblion yn teimlo llai o bwysau i gofnodi, ac felly'n gallu canolbwyntio mwy ar drafod eu dysgu a'r Meini Prawf Llwyddiant
- Athrawon yn addasu cyfeiriad y wers ar unrhyw bryd yn hytrach na bwrw ymlaen gyda chynllun gwers a baratowyd ymlaen llaw.

Meini Prawf Llwyddiant (disgyblion yn eu pennu , agored a chaeëdig defnyddio modelau ardderchog i godi safonau cyflwaniad)

Arferion a weithredwyd:

- Disgyblion yn pennu Meini Prawf Llwyddiant (MPLl) gan ddefnyddio ystod o ddulliau i wneud hyn e.*e. defnyddio modelau o destun penodol, modelau ardderchog, cymharu model da a ddim cystal, dau fodel da, dangos sut i wneud rhywbeth, gwneud rhywbeth yn anghywir*
- Arbrofi gyda MPLL agored a chaeëdig – 'Cofiwch…' a 'Dewiswch… ' (" Should a could"/ "Rules and Tools")
- Bron bob ysgol wedi defnyddio MPLl generig ar gyfer pob darn ysgrifennu neu ddatrys problemau mewn mathemateg. Mae hyn wedi golygu bod MPLL a bennir wedyn yn fwy penodol i'r deilliant/ sgil
- Arbrofi gyda pheidio â gwahaniaethu MPLl er mwyn i bob disgybl gael cyfle i lwyddo
- Pob ysgol wedi defnyddio MPLl fel sail i hunan asesu, adborth a thafod partner yn ystod gwersi.
- Nododd y rhan fwyaf o'r athrawon bod y defnydd o'r craffwr neu offeryn cyffelyb wedi bod yn hanfodol.
- Mae llawer wedi casglu neu greu banc o fodelau o wahanol ffurfiau ysgrifenedig ar gyfer eu trafod gyda disgyblion: DUD Dyma Un Da (WAGOLL - What a good one looks like) E.e. gwaith disgyblion diweddar, ond hefyd yn creu eu testunau eu hunain er mwyn sicrhau modelau ardderchog i ymestyn safon gwaith disgyblion
- Rhan fwyaf o'r athrawon yn gwneud mwy o ddefnydd o seibiannau dysgu i rannu ac adolygu arferion ac enghreifftiau da, i ddisgyblion roi adborth llafar i'w gilydd a rhoi cyfle i ddisgyblion ' fenthyg' syniadau da oddi wrth ei gilydd

Effaith a nodwyd gan athrawon:

Disgyblion yn:

- teimlo mwy o berchnogaeth am eu gwaith
- cofio MPLl yn well os wedi eu pennu eu hunain
- defnyddio a chyfeirio at y MPLl yn amlach pan maen nhw wedi eu llunio ar y cyd
- gallu gwella eu gwaith a chynnal trafodaeth adborth yn effeithiol gydag athrawon a chyfoedion
- fwy hyderus i ymestyn eu hunain gan fod y MPLl yr un fath i bawb.
- disgyblion is eu gallu yn datblygu hyder wrth bennu MPLL eu hunain
- gweld yn glir beth sy'n gwneud "da" mewn tasg
- teimlo mwy o berchnogaeth ar eu dysgu, gallu gwella eu gwaith yn fwy hyderus

Hefyd:

- Athrawon yn meddwl mwy am y dysgu maen nhw eisiau ei weld
- MPLl generig yn galluogi disgyblion i ganolbwyntio ar lunio MPLl sy'n benodol i'r DD
- MPLl caeedig yn sicrhau bod disgyblion yn cyflawni DD yn llwyddiannus
- MPLl agored yn sicrhau bod disgyblion yn ymestyn eu hunain yn effeithiol a bod pob disgybl yn cael cyfle i lwyddo
- Ansawdd gwaith disgyblion wedi gwella o wybod beth oedd ei angen er mwyn llwyddo
- Disgyblion yn fwy cyfforddus wrth fenthyg syniadau ei gilydd**.**
- Mae dangos enghreifftiau o waith ardderchog i ddisgyblion wedi codi safonau
- Disgyblion yn cael cyfleoedd i gynnig gwelliannau i ddarn o waith ysgrifennu ac yn gallu amlygu rhannau y gallent eu 'benthyg' ar gyfer gwella eu gwaith eu hunain

Dileu Grwpio Gallu

Y llynedd, gydag Ysgolion Haen 1 y prosiect, oedd y tro cyntaf i Shirley Clarke erioed ofyn i'w thimau ymchwil arbrofi gyda hyn. Roedd ysgolion Haen 2 eleni felly yn parhau i dorri tir newydd ac arloesi. Mae dros 70% o ysgolion Haen 2 wedi arbrofi a gweld arwyddion cadarnhaol. O'r ysgolion na arbrofodd, nid oedd llawer ohonynt yn grwpio yn ôl gallu beth bynnag. Roedd trefniadaeth rhai ysgolion unigol yn ei gwneud yn anodd arbrofi, e.e. trefn o grwpio'n ôl gallu wedi ei sefydlu.

Arferion a weithredwyd:

- Dileodd rai ysgolion grwpiau gallu yn gyfan gwbl ac yn syth. Aeth eraill ati'n fwy graddol, gan gadw grwpiau gallu ar gyfer rhai pynciau ar y dechrau. Gan amlaf, Mathemateg oedd y pwnc oedd athrawon lleiaf parod i ddileu grwpio gallu.
- Arbrofodd nifer o ysgolion uwchradd gyda dosbarthiadau gallu cymysg ym Mlwyddyn7, gyda rhai yn ymestyn ymhellach i flynyddoedd 8 a 9. Roedd hyn gan fwyaf yn y pynciau sylfaen, ond roedd ychydig wedi arbrofi gyda iaith.
- Parhaodd y rhan fwyaf o ysgolion i ddefnyddio grwpiau gallu ar gyfer gweithgareddau byr penodol grwpiau ymyrraeth, sy'n arfer dda (e.e. grwpiau Darllen- 30 munud). Ond pan ddychwelodd y disgyblion hyn i'r dosbarth roeddent mewn grwpiau gallu cymysg
- Dilëwyd grwpiau gallu yn naturiol fel rhan o waith datblygu partneriaid trafod.
- Nododd bron pob ysgol bod dileu grwpiau gallu yn cyd-fynd gyda sawl maes arall asesu ffurfiannol a gyda'r hinsawdd dosbarth yr oedd y rhain yn eu sefydlu e.e. partneriaid trafod, Meddylfryd o Dwf, pwerau dysgu
- Datblygwyd defnydd o sialensau gwahaniaethol (tasgau 'chillies', tasgau da, gwych, ardderchog) oedd yn sicrhau bod disgyblion yn gweithio yn ôl eu gallu ac yn ymestyn eu hunain. Nododd y mwyafrif helaeth o'r athrawon bod disgyblion yn dewis eu tasgau yn ddoeth.
- Roedd ychydig wedi paratoi pamffled i rieni yn esbonio eu gweithredu a'r ymchwil
- Nododd rhai athrawon ei bod yn anodd perswadio aelodau eraill o staff ar adegau wrth geisio lledaenu'r agwedd yma drwy'r ysgol
- Rhai yn nodi bod cyngor, barnau arbenigwyr eraill wedi golygu nad ydynt wedi arbrofi eto e.e. ymgynghorydd ymddygiad yn argymell cynllun eistedd penodol, Estyn wedi canmol trefn o grwpio gallu
- Nodwyd bod pwysau paratoi ar gyfer arholiadau yn yr ysgolion uwchradd yn golygu nad oedd modd arbrofi gyda hyn drwy'r flwyddyn

Effaith a nodwyd gan athrawon:

- Ethos y dosbarth wedi newid; awyrgylch mwy cefnogol
- Disgyblion yn fwy hyderus i herio eu hunain
- Disgyblion yn gweithio'n well gyda'i gilydd mewn grwpiau gallu cymysg ac yn cefnogi ei gilydd yn dda.
- Pob disgybl yn cael mynediad llawn i bob tasg a phawb yn cael yr un MPLL. Roedd y ffaith bod pob disgybl yn cael dewis lefel eu tasg yn rhoi mynediad cyfartal i bawb. Roedd hyn yn cynyddu eu hawydd i ddysgu a'u hunan barch
- Disgyblion yn llai tebygol o gymharu eu hunain ag eraill.
- Cynnydd yn safonau disgyblion o bob gallu.

Dileu gwobrwyo cymharol

Er y gall gwobrwyo fod yn ddefnyddiol mewn rhai amgylchiadau a sefyllfaoedd e.e. hyrwyddo ymddygiadau dymunol yn ystod rhai rhaglenni addysgu manwl ac ymyrraeth, yn ystod yr astudiaeth hon gofynnwyd i athrawon arbrofi i weld effaith cael gwared â gwobrwyo cymharol. E.e. sticeri, siartiau pwyntiau dosbarth, seren yr wythnos.

Y llynedd, gydag Ysgolion Haen 1 y prosiect, oedd y tro cyntaf i Shirley Clarke erioed ofyn i'w thimau ymchwil arbrofi gyda hyn. Roedd ysgolion Haen 2 eleni felly yn parhau i dorri tir newydd ac arloesi.

Hwn oedd y maes arbrofi achosodd y pryder mwyaf i rai ysgolion. Roedd gan rhai ysgolion ddiwylliant cryf o wobrwyo ac ystyrient y newid yn heriol, nododd eraill nad oedd dileu gwobrau yn cyd-fynd â mentrau a rhaglenni eraill yn eu hysgolion. Wedi dweud hyn arbrofodd dros 60% o ysgolion Haen 2 gyda bron pob un yn canfod effaith cadarnhaol. O'r ysgolion nad arbrofodd, nid oedd llawer ohonynt yn gwobrwyo beth bynnag.

Aeth ysgolion felly ar deithiau gwahanol i sefydlu eu rhesymeg a'u hymarfer eu hunain, yn seiliedig ar ymchwil a thrafodaeth bellach.

Arferion a weithredwyd:

- Dileodd rhai wobrwyo yn gyfan gwbl ac yn syth. Aeth eraill ati'n fwy graddol, gan gynnwys addasiadau fesul ychydig
- Trafododd nifer fwriad yr ymchwil gyda disgyblion cyn cychwyn. Nododd sawl athro bod rhai o'r pethau ddywedodd disgyblion am wobrwyo yn agoriad llygad. *E.e. "nid yw systemau gwobrwyo'r ysgol yn deg", " llawer o blant yn gweithio'n galed ond dim ond un yn cael gwobr.*"
- Mae rhai wedi dileu gwobrwyo yn eu dosbarthiadau eu hunain, ond mae gweddill yr ysgol yn parhau i wobrwyo ar hyn o bryd
- Roedd staff mewn rhai ysgolion yn pryderu am ddileu defnydd o sticeri gan eu bod yn boblogaidd gyda rhieni
- Rhai wedi symud tuag at wobrwyo defnydd o bwerau dysgu, eraill yn nodi bod hyn yn parhau i fod yn wobrwyo cymharol ac wedi gochel rhag gwneud hyn
- Mwy o ganmol a dathlu yn y foment yn hytrach nag unrhyw wobrwyo gweledol. Rhai yn dathlu'n dorfol
- Defnyddir systemau gwobrwyo gydag unigolion fel rhan o gynlluniau hyrwyddo ymddygiad penodol.
- Rhai yn nodi bod rhai cynlluniau eraill a ddefnyddir mewn ysgolion yn arddel gwobrwyo ac yn creu ansicrwydd neu anghysondeb.

Effaith a nodwyd gan athrawon:

- Yr elfen gystadleuol o fewn dosbarth wedi lleihau.
- Gwell ethos dosbarth
- Disgyblion yn fwy brwdfrydig a hyderus
- Llawer mwy o ganmol yn digwydd ar lafar a dathlu llwyddiannau yn y foment
- Lleihau baich gwaith athrawon a chymorthyddion, (cofnodi seren yr wythnos, rhannu sticeri, llenwi waliau gwobrwyo, cyfrifo pwyntiau ayb)
- Nododd y rhai a ddileodd gwobrwyo nad oedd disgyblion yn gweld ei golli ac na fu unrhyw effaith negyddol o beidio â derbyn gwobr. Nododd un ysgol yn nodi i'r disgyblion ofyn am ail gyflwyno gwobrwyo

Adborth

Arferion a weithredwyd:

Mae pob ysgol wedi arbrofi gyda dulliau o wella adborth llafar, adborth cyfoedion a hunan asesu. Roedd arbrofi gydag adborth llafar yn golygu y byddai llai o sylwadau athrawon yn llyfrau'r disgyblion. Bu cryn drafod ar bryderon o ran atebolrwydd a marcio ar gyfer gwahanol gynulleidfaoedd Cafwyd trafodaethau gwerthfawr ac amserol o gwmps " ar gyfre pwy ydym ni'n marcio?" ac am werth ac effaith marcio. Nodwyd effaith gadarnhaol iawn defnyddio rhai o'r strategaethau isod ar safonau ac annibyniaeth disgyblion ac ar faich gwaith athrawon. Mae'r gwaith ymchwil yn y maes hwn yn parhau ym mron pob ysgol.

- Rhoddwyd pwyslais ar y ffaith fod adborth yn broses dwy ffordd, sef:
  - athro yn derbyn adborth o ddealltwriaeth a gwybodaeth disgyblion ac yna'n addasu'r camau nesaf y dysgu / addysgu yn y foment
  - athro yn rhoi adborth i ddisgybl er mwyn adnabod y camau nesaf ar gyfer gwella'r dysgu.
- Mae'r rhan fwyaf o'r ysgolion wedi rhoi sylw da i weithio ar ddatblygu adborth llafar mewn gwersi a sicrhau bod disgyblion yn gweithio ar hynny yn syth ac yn naturiol fel rhan o'u gwaith
- Mae bron pob athro yn defnyddio craffwr neu offeryn cyffelyb yn gyson ar gyfer modelu gwaith a rhannu arferion ac enghreifftiau da ac ar gyfer adborth ganol gwers, hunan asesu ac asesu cymheiriaid.
- Mae'r rhan fwyaf o'r athrawon yn gwneud defnydd rheolaidd a llwyddiannus o seibiannau dysgu i rannu gwaith disgyblion drwy ddefnyddio'r craffwr. Yn y cyfnodau hyn mae cyfleoedd i roi a derbyn adborth cyfoedion a chyfle i ddisgyblion 'fenthyg' syniadau da oddi wrth ei gilydd.
- Mae rhai wedi treialu 'sesiynau trafod un i un' ('One to One Coaching') a gweld hyn yn ymarfer defnyddiol iawn. Nodwyd ei fod yn anodd cael amser i weithredu hyn ond bod y buddsoddiad amser yn talu ar ei ganfed.
- Mae llawer o ysgolion wedi cyflwyno strategaethau megis 'Tri cyn fi', 'y 4B' (Brain, Buddy, Book, Boss)
- Mae llawer o ysgolion wedi adolygu/ diwygio eu polisi adborth gyda chanlyniadau cadarnhaol o ran cysondeb gweithredu. Mae ychydig o ysgolion wedi cynnwys dim marcio y tu allan i wersi fel rhan o'r polisi.
- Y rhan fwyaf o ysgolion wedi datblygu hunan asesu ac asesu cyfoedion drwy hyfforddi disgyblion i roi adborth a modelu hynny, sicrhau DD a MPLl effeithiol fel sail i adborth
- Llawer o ysgolion wedi treialu defnyddio uwch-oleuwyr (pinc (plesio) / gwyrdd (gwella) rhai wedi cyflwyno lliw arall - ar gyfer meddwl am ran o'r gwaith ('Melyn meddwl …..')
- Nifer wedi arbrofi gyda rhoi bocs o gwmpas darn penodol o waith i'w wella/ ei ailddrafftio. Mewn achosion eraill, mae'r bocs wedi ei ddefnyddio gan ddisgyblion i ddangos i athrawon pa ran o'r gwaith y maen nhw'n dymuno derbyn adborth arno.
- Llawer hefyd wedi treialu dulliau megis gadael tudalen wag ar gyfer adborth a gwneud gwelliannau, defnyddio codau wrth roi adborth ysgrifenedig,
- Llawer wedi rhoi sylw i ddefnydd o amseroedd penodol mewn wythnos waith i wella gwaith, e.e. dydd Gwener Gwella, amser llnau, 'DIRT time' '
- Rhai ysgolion wedi arbrofi gyda defnyddio matiau adborth "rules and tools" i helpu disgyblion wrth hunan asesu ac asesu cymheiriaid.
- Mae rhai ysgolion wedi sefydlu grwpiau ymchwil ymyst staff neu gyda staff a disgyblion i adolygu effeithiolrwydd adborth yn rheolaidd

Effaith a nodwyd gan athrawon:

- Llawer mwy o hunan asesu ac asesu cyfoedion yn digwydd. Gallu disgyblion i wneud hyn yn effeithiol wedi datblygu'n sylweddol
- Disgyblion yn rhoi gwell adborth ar lafar, yn cynnwys disgyblion ifanc iawn
- Disgyblion yn derbyn adborth ac yn gwneud gwelliannau'n barhaus yn y wers yn lle disgwyl tan ddiwedd darn o waith i wneud hynny
- Disgyblion yn gweld mwy o bwrpas i adborth
- Y dysgu a'r broses o wella gwaith yn weledol i'r disgyblion
- Gwelliant a chynnydd gwledol yn llyfrau'r disgyblion
- Llai o farcio tu allan i'r dosbarth. Mae sicrhau adborth effeithiol o fewn gwersi wedi lleihau baich gwaith athrawon heb gyfaddawdu ar gynnydd disgyblion
- Disgyblion yn medru datrys a hunan gywiro yn fwy annibynnol
- Disgyblion yn cofio eu gwelliannau yn well
- Mwy o amser wedi ei roi gan athro i drafod gwaith gyda'r disgybl i sicrhau eu bod yn deall sut i wella.
- Adborth llafar ac adborth yn ystod gwers yn rhoi gwell darlun i athrawon o gyrhaeddiad presennol a chamau nesaf dysgu disgyblion yn y foment. Mae hyn yn hyrwyddo cynnydd disgyblion.

Llwyth Gwybyddol

Dyma lle bu'r lleiaf o arbrofi a gweithredu hyd yn hyn. Nododd y rhan fwyaf o'r ysgolion mai dim ond megis dechrau ar ymchwil yr oedden nhw. O'r rhai a oedd wedi arbrofi, nodwyd effaith gadarnhaol eu hymchwil ar lwyth gwybyddol disgyblion a'u gallu i ddysgu a chofio.

Arferion a weithredwyd:

- Waliau dysgu Pie Corbett i atgyfnerthu a chefnogi adalw
- Annog disgyblion i wneud nodiadau yn ystod gwersi neu gyflwyniadau
- Datblygu'r defnydd o drefnwyr dysgu fel rhan o brosiect clwstwr, ac yn CA3
- Hyfforddi staff am lwyth gwybyddol ac ymarfer adalw, rhai wedi hyfforddi disgyblion
- E-bostio cyflwyniadau i ddisgyblion ymlaen llaw
- Recordio canllawiau gweithredu gwahanol ddulliau mathemategol - disgyblion wedyn yn gallu cyfeirio'n ôl atynt yn ôl y galw.
- Defnyddio wal waith i gofnodi'r dysgu fel yr oedd yn digwydd e.e. cynnwys DD MPLl, geiriau allweddol, enghreifftiau o waith llwyddiannus, unrhyw gynllunio. Mae hyn yn digwydd mwy mewn gwaith iaith na dim arall ar hyn o bryd.

Effaith a nodwyd gan athrawon:

- Disgyblion yn fwy hyderus wrth ddwyn dysgu i gof o un sesiwn i'r llall.
- Defnydd da o waliau i gefnogi dysgu'r dosbarth
- Ymarfer adalw ac ail ymweld â dysgu yn rheolaidd yn effeithio'n gadarnhaol ar allu disgyblion i ddwyn dysgu i gof, ac yn dyfnhau eu dysgu a'u dealltwriaeth
- Disgyblion yn trafod ac yn asesu eu dysgu yn well
- Disgyblion yn fwy hyderus wrth drafod camau nesaf eu dysgu
- Disgyblion yn ymroi yn well i waith

Crynodeb o ganfyddiadau holiaduron Prifysgol Bangor - Ysgolion Haen 2

Gweinyddwyd dau holiadur i fesur effaith gwahanol agweddau ar y prosiect. Roedd dau ar gyfer athrawon:

1. Agweddau a barnau ar ddefnyddio tystiolaeth ac ymchwil fel sail ar gyfer ymarfer,
2. Asesu ffurfiannol - i asesu gwybodaeth, hyder ac effaith ganfyddedig,

ac un ar adborth i ddisgyblion.

Ymarfer sy'n Seiliedig ar Dystiolaeth YSD – Holiadur athrawon

(Noder isod: C - Cymedr ; GS - Gwyriad Safonol)

Roedd yr holiadur hwn yn cynnwys pedair isadran:

1. Agweddau cyffredinol tuag at YSD
2. Rhoi YSD ar waith yn ymarferol,
3. Hunan asesu sgiliau YSD, a
4. Effaith YSD ar ddisgyblion.

Ar gyfer yr agweddau cyffredinol tuag at YSD, cafodd dau gwestiwn eu codio am yn ôl *(reverse coded).* Cyfrifwyd sgôr gymedrig ar draws y cwestiynau ar gyfer yr adrannau Agweddau a Sgiliau. Yn yr adrannau hyn, roedd yr ymatebion yn amrywio o 1 = Anghytuno'n Gryf i 5 = Cytuno'n Gryf. Roedd sgôr cymedrig uwch yn cynrychioli agwedd gyffredinol fwy cadarnhaol tuag at bob maes. Gweinyddwyd yr arolwg hwn ar ddau bwynt, Medi – Tachwedd 2018 a Mehefin - Gorffennaf 2019. Ni chynhwyswyd ymatebion a dderbyniwyd ar ôl y cyfnod casglu data. Cyflwynwyd ymatebion hwyr ar bedwar achlysur ar gyfer yr holiadur YSD, gan adael 235 ymateb ar gyfer y cyfnod 'Gwaelodlin' (Amser 1) a 150 ar gyfer y cyfnod 'Dilyniant' (Amser 2).

Mae Ffigur 1 yn dangos bod agweddau cyffredinol tuag at YSD yn gadarnhaol ar y cyfan ar y Waelodlin (*C* = 3.94, *GS* 0.52) ac yn dangos ond ychydig o newid yn y Dilyniant (*C* = 4.10, *GS* = 0.53).

Mae Ffigur 2 yn dangos newid cadarnhaol cyffredinol yn nifer y bobl sy'n ymarfer yn seiliedig ar dystiolaeth o'r Waelodlin i'r Dilyniant. Ar Ddilyniant) nododd 89.33% (134/150) o athrawon bod swm cymedrol o'u holl ymarfer yn seiliedig ar YSD, o'i gymharu â 71.06% (167/235) ar y Waelodlin.

Mae Ffigur 3 yn dangos patrwm tebyg ar gyfer cwestiynau a oedd yn holi am wneud penderfyniadau ar sail YSD - defnydd o'r rhyngrwyd, llenyddiaeth broffesiynol ac adnoddau addysgol ar gyfer llywio ymarfer addysgu.

Mae Ffigur 4 yn dangos bod y graddfeydd perfformiad y dyfarnodd athrawon i'w hunain ar gyfer eu sgiliau YSD wedi gwella ar amser Dilyniant
(*C* = 3.66, *GS* = 0.47) o'i gymharu â'r Gwaelodlin (*C* = 3.18, *GS* = 0.62).

Yn olaf, mae Ffigur 5 yn dangos newid cadarnhaol cyffredinol o ran priodoli gwelliant mewn safonau, pynciau craidd, addysgu ac asesu, ymddygiad a lles.



Ffigur 1. Graddfeydd cytundeb cymedrig ar gyfer naw datganiad ynghylch agweddau cyffredinol tuag at YSD



Ffigur 2. Mae'r bariau glas yn dangos symudiad cadarnhaol cyffredinol yn y nifer sy'n manteisio ar YSD mewn ymarfer athrawon, gyda chyfran llawer mwy o bobl yn adrodd bod cyfran fawr o ymarfer yn seiliedig ar dystiolaeth ymchwil addysgol.



Ffigur 3: Mae'r bariau glas yn dangos defnydd mwy cadarnhaol o strategaethau ymchwil gwahanol ar Amser 2.



Ffigur 4. Gwerthusiad mwy cadarnhaol ar y Dilyniant o'i gymharu a'r Gwaelodlin .

Faint ydych chi'n meddwl y mae YSD wedi ei gyfrannu at welliannau mewn...



Ffigur 5. Newid cyffredinol gadarnhaol yn effaith canfyddedig YSD ar feysydd craidd ar y Dilyniant o'i gymharu â'r Gwaelodlin.

Holiadur Athrawon - Asesu Ffurfiannol

Gofynnodd yr holiadur hwn am agweddau athrawon tuag at ddefnydd o strategaethau asesu a'u heffeithiolrwydd canfyddedig, ar ddau bwynt amser, GAwelodlin a Dilyniant.

Gofynnwyd cwestiwn ychwanegol ynghylch ymwybyddiaeth disgyblion mewn perthynas â bod yn ddysgwyr effeithiol a chwestiwn arall ychwanegol ynghylch grwpio yn ôl gallu. Cyfrifwyd sgoriau cymedrig ar draws set o gwestiynau graddfa 'likert' yn Adran 1 ar agweddau, Adran 3 ar effeithiolrwydd, a'r cwestiwn a oedd yn gofyn am ymwybyddiaeth plant. O'r holl ymatebion a gyflwynwyd, cyflwynwyd 42 ar ôl y cyfnod casglu data, gyda 365 o ymatebion dilys yn y cyfnod Gwaelodlin a 149 yn y cyfnod Dilyniant.

Yn gyffredinol roedd newid cadarnhaol mewn hyder/dealltwriaeth, effeithiolrwydd ac ymwybyddiaeth disgyblion o asesu ffurfiannol.

Mae Ffigur 6A yn dangos symudiad tuag at welliant mwy cadarnhaol mewn hyder / dealltwriaeth o strategaethau asesu ffurfiannol o'r Waelodlin (*C* = 3.51, *GS* = 0.85) i'r Dilyniant (*C* = 4.18, *GS* = 0.75).

Ffigur 6B yn dangos gwelliant cadarnhaol yn gyffredinol yn yr effeithiolrwydd canfyddedig mewn asesu ffurfiannol (Gwaelodlin: *C* = 3.47, *GS* = 0.85; Amser 2: *C* = 4.11, *GS* = 0.73) ac mae Ffigur 6C yn dangos gwell ymwybyddiaeth disgyblion o sut i fod yn ddysgwr effeithiol (Gwaelodlin: *C* = 3.19, *GS* = 0.85; Dilyniant: *C* = 3.98, *GS* = 0.70).

Mae Ffigur 7 yn dangos newid cyffredinol wrth weithredu strategaethau asesu ffurfiannol yn y dosbarth, yn arbennig felly'r defnydd o'r craffwr a phartneriaid trafod.



Ffigur 6. Hyder/ dealltwriaeth athrawon (A) effeithiolrwydd canfyddedig athrawon (B) ac Ymwybyddiaeth disgyblion o'u hunain fel dywsgwyr effeithiol (C) wedi gwella ar Ddilyniant.



Ffigur 7. Gwelliannau cyffredinol gadarnhaol wrth gymhwyso strategaethau asesu ffurfiannol yn Dilyniant. Ymddengys bod y cynnydd mwyaf yn y defnydd o bartneriaid trafod a'r craffwr.

Holiadur Disgyblion - Adborth

Casglwyd ymatebion gan ddisgyblion yn nosbarthiadau athrawon Haen 2 i asesu gwerthusiad cyffredinol o strategaethau adborth ac asesu a ddefnyddiwyd gan eu hathrawon. Casglwyd cyfanswm o 5500 o ymatebion gan ddisgyblion yn ystod Haen 2 y prosiect: cyflwynwyd 320 yn hwyr, cyflwynwyd 3544 ymateb yn ystod y cyfnod Gwaelodlin, a chyflwynwyd 1636 ymateb yn ystod y cyfnod Dilyniant.



Ffigur 8. Ymatebion i bum cwestiwn oedd yn asesu canfyddiad disgyblion o amlder strategaethau adborth a'u dealltwriaeth ohonynt.

Yn gyffredinol, roedd y rhan fwyaf o ddisgyblion yn cymryd rhan mewn arferion i wella'u gwaith eu hunain, gydag ychydig o welliant cymedrol o'r Gwaelodlin i'r Dilyniant mewn 5 agwedd a holwyd yn adran 1, yn enwedig amlder defnyddio adborth partner a deall adborth ysgrifenedig gan athrawon (gweler Ffigur 8).

Hefyd, roedd cynnydd cymedrol yn y ganran o ddisgyblion oedd yn canfod asesu cyfoedion fwyaf defnyddiol adeg Dilyniant (Gwaelodlin: 16.25%; Dilyniant: 20.23%), a gostyngiad cymharol yn y ganran o ddisgyblion oedd yn ystyried adborth ysgrifenedig gan athrawon fwyaf defnyddiol (Gwaelodlin: 25.85%; Dilyniant: 20.48%). Gweler Ffigur 9 ar gyfer crynodeb o'r data.

Ychydig o wahaniaeth oedd rhwng y Waelodlin a'r Dilyniant mewn perthynas â'r adborth y dymuna disgyblion ei dderbyn. Fodd bynnag, roedd tuedd gadarnhaol yng nghanfyddiad disgyblion o effeithiolrwydd adborth athrawon a chyfoedion ar gyfer gwella'u gwaith yn gyffredinol ac ar gyfer gwaith ysgrifenedig a mathemateg yn benodol.



Ffigur 9. Canran yr ymatebion ar gyfer y cwestiwn "Pa fath o adborth sydd fwyaf o gymorth i chi wrth wella'ch gwaith?"



Ffigur 10. Asesiad o effeithiolrwydd canfyddedig adborth ysgrifenedig, llafar a gan gyfoedion ar gyfer gwaith yn gyffredinol a mathemateg ac ysgrifennu'n benodol. Mae'r bariau glas yn dangos symudiad tuag at well effeithiolrwydd canfyddedig adeg y Dilyniant.

Cymharu ymatebion ysgolion cynradd ac uwchradd

Holiaduron athrawon - Ymarfer wedi ei seilio ar Dystiolaeth(YSD) ac Asesu Ffurfiannol

Nodwyd bod ymatebion i'r holiaduron athrawon ar YSD ac Asesu Ffurfiannol yn isel iawn ar adeg Dilyniant mewn ysgolion uwchradd ac ysgolion 3-16, o'i gymharu ag ymatebion ysgolion cynradd.

Ymatebion athrawon i holiadur YSD - ysgolion 3-16 (Gwaelodlin = 2, Dilyniant = 1) ac ysgolion uwchradd (Gwaelodlin = 23; Dilyniant = 12). Cafwyd ymateb ychydig gwell ar gyfer yr holiadur asesu ffurfiannol i athrawon gan ysgolion 3-16 (Gwaelodlin = 7; Dilyniant = 2) ac ysgolion uwchradd (Gwaelodlin = 48; Dilyniant = 12).

Roedd y gyfradd ymateb gwan yn y cyfnod Dilyniant yn golygu nad yw cymariaethau ar sail y math o ysgol ar gyfer y ddau holiadur athrawon yn rhoi unrhyw wybodaeth ddefnyddiol.

Holiadur disgyblion ar adborth

Roedd ymatebion i'r hioliadur adborth fel a ganlyn:

Ysgolion 3-16 9 ymateb adeg Gwaelodlin yn unig

Ysgolion Uwchradd - 630 o ymatebion yn cael eu cyflwyno adeg Gwaelodlin a 162 ymateb adeg Dilyniant (25.71% o'r Gwaelodlin).

Ysgolion Cynradd yn llawer gwell gyda chyfradd ymateb o 50.74% adeg Dilyniant (n = 1474) o gymharu â Gwaelodlin (n = 2905).

Cymharwyd ymatebion disgyblion cynradd ac uwchradd ar gyfer cwestiwn 1-6 yr holiadur disgyblion.

Mae Ffigur 11 yn dangos tueddiad cryfach yn gyffredinol o welliant ymysg ysgolion cynradd ar gyfer amlder ac effeithiolrwydd adborth. Gwelir peth gwelliant ar gyfer disgyblion uwchradd o ran amlder trafodaethau gydag athrawon, yn ogystal â hunan asesu ac asesu cyfoedion.

Mae'r patrwm ymateb a welwyd yn flaenorol, ar gyfer y dulliau mwyaf defnyddiol o dderbyn adborth, fwyaf amlwg ymysg disgyblion uwchradd. Roedd cyfran fwy o ddisgyblion uwchradd yn gweld adborth gan bartneriaid am FPLl fwyaf defnyddiol adeg Dilyniant o'i gymharu â Gwaelodlin, gyda gostyngiadau bach ar gyfer mathau eraill o adborth Ffigur 12).



Ffigur 11. Cymhariaeth rhwng ymatebion ysgolion cynradd ac uwchradd ar gwestiynau cyffredinol am amlder ac effeithiolrwydd canfyddedig strategaethau adborth



Ffigur 12. Cymhariaeth rhwng ymatebion disgyblion cynradd ac uwchradd ar y mathau mwyaf defnyddiol o adborth o adeg Gwaelodlin i adeg Dilyniant

Crynodeb

At ei gilydd mae'n ymddangos bod canfyddiadau'r asesiadau hyn yn cefnogi gwelliant cyffredinol yn effeithiolrwydd ac arfer canfyddedig athrawon o ymarfer sy'n seiliedig ar dystiolaeth ac asesu ffurfiannol.

Ymddengys bod hyn wedi arwain at rai gwelliannau bach yng nghanfyddiad ac ymwybyddiaeth disgyblion o strategaethau adborth. Ymddengys bod patrymau gwelliant yn gymharol gyson rhwng ysgolion cynradd ac uwchradd er bod disgyblion uwchradd yn hoffi'r agwedd asesu cyfoedion o'r ymyrraeth hon.

Roedd y cyfraddau ymateb gan wahanol fathau o ysgolion yn amrywio'n fawr.

Ymchwil Bellach Prifysgol Bangor - astudiaeth PhD gyfredol

Mae myfyriwr PhD ym Mhrifysgol Bangor ar hyn o bryd yn gweithio ar ymchwil a fydd yn gwerthuso asesu ffurfiannol gan ddefnyddio safbwynt economeg iechyd.

Bwriad yr ymchwil hwn yw defnyddio safbwynt economeg iechyd i werthuso'r ymchwil gweithredol rhanbarthol ar asesu ffurfiannol gan ganolbwyntio ar drawstoriad o ysgolion Haen 2. Mae gan economeg iechyd sawl dull o werthuso ymyraethau sydd nid yn unig yn mesur effeithiolrwydd ymyrraeth ond gall hefyd edrych a yw prosiect yn gost effeithiol (mae dulliau eraill yn cynnwys cyfleustodau cost, buddion cost ac ati). Nod y gwerthusiad hwn yw edrych ar gost effeithiolrwydd y prosiect mewn perthynas â'r buddion.

Gan weithio gyda sampl o ysgolion Haen 2 ar gyfer gwerthusiad blwyddyn gyfan, mae dwy ran i'r casglu data.

- Yng nghyfnod cyntaf yr ymchwil, cesglir data meintiol ar les, cysylltiad â'r ysgol a holiadur iechyd generig. Yn ogystal â hyn caiff data cyflawniad disgyblion ei dracio.
- Yn ail gyfnod y casglu data cynhelir cyfweliadau â grwpiau o ddisgyblion, bydd hyn yn gymorth i ddeall safbwynt y disgyblion a'r effaith. Caiff athrawon dosbarth eu cyfweld mewn manylder hefyd er mwyn cael dealltwriaeth o unrhyw hwyluswyr neu rwystrau mewn perthynas â chynnal y prosiect yn eu dosbarth a'u hysgol. Caiff y cyfweliadau eu defnyddio i gasglu data effeithiolrwydd a data am amser ac adnoddau.

Ar sail y data effeithiolrwydd a chostau'r prosiect cynhelir dadansoddiad cost effeithiolrwydd, bydd hwn yn cael ei gymharu ag ymyraethau eraill fel sy'n gyffredin mewn ymchwil iechyd. Pan fydd y data wedi eu casglu cwblheir Enillion Cymdeithasol ar Fuddsoddiad (SROI). Mae hwn yn ddull a ddefnyddir mewn ymchwil werthusol ym maes iechyd ac eraill. Mae'r dull hwn yn caniatáu i ymchwilwyr gostio'n llawn unrhyw fuddion ymyrraeth na fyddai, yn draddodiadol, wedi bod yn ddiriaethol neu'n gyfrifadwy ac wedi'u cyfrifo i werth ariannol.

Y gwerthusiad hwn yw'r cyntaf o'i fath yng Ngogledd Cymru a gobeithir y bydd yn enghraifft o arfer da wrth werthuso ymyraethau ym maes addysg. Mae angen mwy o ymchwil ym maes "Economeg Addysg' er mwyn cynnig gwerthusiadau llawn a chadarn i'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau. Gobeithir y bydd yr ymchwil hwn yn cefnogi'r symudiad tuag at ymarfer sy'n seiliedig ar dystiolaeth, a hefyd yn ymgorffori cost effeithiolrwydd fel ffordd o gefnogi'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau.

Hyd yma, mae holl ddata'r holiaduron wedi ei gasglu ar gyfer y 9 ysgol ymyrraeth ar 8 ysgol rheolydd (*control group*). Cwblhawyd 7 grŵp ffocws gyda disgyblion o'r ysgolion ymyrraeth. Edrychodd y grwpiau ffocws ar effaith egwyddorion asesu ffurfiannol o safbwynt y disgyblion. Mae saith o athrawon wedi cymryd rhan yn y cyfweliadau manwl un-i-un. O'r data hwn byddwn yn gallu gweld effaith y prosiect ar staff addysgu a sut mae asesu ffurfiannol yn gweithio yn y dosbarth ac yn amgylchedd yr ysgol. Casglwyd data amser ac adnoddau hefyd i gefnogi costio'r prosiect.

Roedd yr holiaduron yn cynnwys Cyfleustodau Iechyd Plant -9D (CHU-9D), Holiadur Cryfderau ac Anawsterau (SDQ) a Holiadur Ansawdd Bywyd Plant Ysgol (QoLS).

Mae'r data yn cael eu dadansoddi ar hyn o bryd i weld a oes themâu cyffredin y gellir eu tynnu o brofiad y cyfranogwyr ac i weld a oes unrhyw newidiadau 'cyn – ar ôl' o ran lles, cysylltiadau â'r ysgol, a'r holiadur iechyd generig a fydd yn cefnogi cyfleustodau cost ar gyfer y prosiect. Caiff cyflawniad disgyblion ei ddadansoddi hefyd ac ymchwilir i gost effeithiolrwydd.

Canfyddiadau Adroddiadau Arolygiadau Estyn mewn ysgolion Haen 2, Ionawr 2019 - Gorffennaf 2019

Ar gyfer y rhan hon o'r adroddiad, casglwyd data ar ysgolion Haen 2 a arolygwyd gan Estyn rhwng Ionawr a Gorffennaf 2019 gan ganolbwyntio ar Faes Arolygu 2 (Lles ac Agweddau at Ddysgu) a Maes Arolygu 3 (Profiadau Addysgu a Dysgu)

Arolygwyd chwech o ysgolion Haen 2 rhwng Medi a Rhagfyr 2019, yn cynnwys un ysgol uwchradd, ond nid ydynt wedi'u cynnwys isod ei bod yn rhy gynnar i weld effaith unrhyw weithredu.
Felly mae'r naratif isod yn seiliedig ar yr 18 ysgol gynradd a arolygwyd rhwng Ionawr a Gorffennaf 2019 . Ni arolygwyd unrhyw ysgolion uwchradd Haen 2 yn y cyfnod hwn.

Mae barnau Estyn ar Feysydd Arolygu 2 a 3 yn yr ysgolion cynradd Haen 2 a arolygwyd rhwng Ionawr a Gorffennaf 2019 o leiaf yn dda gyda chanran dda yn rhagorol .

Nifer yr ysgolion a arolygwyd

Awdurdod	Nifer
Gwynedd	**7**
Môn	**1**
Conwy	**0**
Sir Ddinbych	**3**
Sir y Fflint	**1**
Wrecsam	**6**
Cyfanswm	**18**

Barn	Maes Arolygu 2	Maes Arolygu 3
Da	9 ysgol **(50%)**	12 ysgol **(66.7%)**
Rhagorol	9 ysgol **(50%)**	6 ysgol **(33.3%)**

Gweler yr atodiad am naratif perthnasol ar ysgolion unigol.

Clo

Mae gwaith sylweddol wedi digwydd mewn dosbarthiadau ar draws y rhanbarth ac mae effaith l hyn yn amlwg. Mae gwaith y prosiect wedi cael effaith gadarnhaol, nid yn unig ar ansawdd addysgu mewn dosbarthiadau ond ar safonau lles disgyblion, eu hagweddau at ddysgu a'u datblygiad fel dysgwyr annibynnol. Mae'r ysgolion sy'n rhan o'r prosiect yn datblygu'n dda fel sefydliadau sy'n dysgu ac wedi cael cyfleoedd buddiol i gydweithio gydag ysgolion ar draws y rhanbarth ac yn draws sector

Maent hefyd wedi dyfnhau eu dealltwriaeth o addysgeg effeithiol a hynny ar sail ymchwil lleol a rhyngwladol eang a chyfredol. Maent wedi ymgymryd â gwaith ymchwil gweithredol yn eu hysgolion, ac wedi cydweithio'n broffesiynol ac arloesi'n hyderus. Mae cynnydd yn y ffocws ar addysgeg effeithiol yng ngwaith clystyrau cydweithredu'r rhanbarth.

Mae bod yn rhan o waith y prosiect wedi gwneud cyfraniad sylweddol at barodrwydd a pharatoadau ysgolion ar gyfer y Daith Ddiwygio a Cwricwlwm i Gymru, yn benodol felly drwy roi sylw da i'r pedwar diben, 12 egwyddor addysgegol, ysgolion fel sefydliadau sy'n dysgu, y safonau proffesiynol i arweinwyr ac athrawon ynghyd â'r agenda lleihau baich gwaith athrawon

Camau nesaf

Er mwyn sicrhau parhad y gwaith cychwynnol dros y flwyddyn a sicrhau'r effaith gorau posib ar draws ysgolion y rhanbarth, bydd ysgolion Haen 2 angen:

- Parhau i arbrofi ar lefel dosbarth gan ddyfnhau ymarfer bersonol
- Cymryd amser i wreiddio gweledigaeth ac athroniaeth bersonol ac ysgol gyfan
- Cynnig arweiniad a chefnogaeth barhaus er mwyn gwreiddio a chysoni arferion yn ddwfn i sicrhau'r effaith cryfaf
- Cydweithio o fewn clystyrau ar draws y rhanbarth i ddyfnhau ymarfer ac arwain a chefnogi ysgolion Haen 3 gyda GwE ac ysgolion Haen 1
- Sicrhau defnydd effeithiol o adnoddau cefnogol Gwe i arwain staff ac i hunan arfarnu cynnydd a meysydd ar gyfrer datblygu pellach
- Cydweithio gyda thîm y prosiect o fewn GwE ar gyfer sicrhau'r gefnogaeth i bob athro/athrawes gael mynediad i'r cyfle i gynnal gwaith ymchwil gweithredol o'r fath yn eu dosbarthiadau
- Rhannu arferion da yn ehangach drwy astudiaethau achos ar G6 GwE

Mae GwE yn parhau i gefnogi a chydweithio gydag ysgolion Haen 1 a 2 yn eu gwaith datblygol yn eu hysgolion eu hunain ac yn eu rôl yn cefnogi ac arwain ysgolion Haen 3. Sydd wedi cywchyn ar eu hymchwil gweithredol Medi 2019.

ATODIAD:

Naratif perthnasol Estyn am Ysgolion Cynradd y prosiect Ionawr - Gorffennaf 2019

Dyddiad arolygu	Maes Arolygu 2	Maes Arolygu 3
Ysgol 1 Ionawr 2019	DA Mae rhan fwyaf y disgyblion yn dangos cymhelliant yn eu gwaith, yn cydweithio'n gytûn ac yn ymroi i'w tasgau yn ddiwyd. Mae hyn yn cyfrannu'n llwyddiannus at yr ethos o ddysgu effeithiol sy'n bodoli o fewn yr ysgol ac yn cael effaith gadarnhaol ar safonau disgyblion. Mae disgyblion y cyfnod sylfaen bob amser yn barod i ddysgu, ac yn arddangos lefel arbennig o annibyniaeth. Mae bron bob un yn canolbwyntio'n dda, ac yn dangos gwydnwch pan fyddant yn wynebu heriau newydd. Mae rhan fwyaf y disgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn dangos gallu cynyddol i gydgynllunio ac i fynegi barn am yr hyn maent yn ei ddysgu. O ganlyniad, mae llawer yn datblygu i fod yn ddysgwyr annibynnol, hyderus ac uchelgeisiol.	DA Defnyddir amrediad o weithgareddau dychmygus a heriol sy'n magu annibyniaeth ymysg disgyblion yn effeithiol. O ganlyniad, mae'r disgyblion yn hyderus i fentro ac i feddwl drostynt eu hunain. Maent yn defnyddio holi penagored yn llwyddiannus iawn er mwyn annog y disgyblion i feddwl yn annibynnol. Mae cyflwyniadau dychmygus a chyflymder y gwersi yn nodwedd gref o'r addysgu. Mae'r athrawon yn cynnig adborth cadarn i ddisgyblion er mwyn iddynt wneud gwelliannau a datblygu eu gwaith ymhellach. Mae staff yn ymyrryd yn sensitif i gynorthwyo disgyblion ar adegau priodol yn ystod y wers, er enghraifft i'w hannog i wirio eu cynnydd yn erbyn amcanion gwersi a'r meini prawf llwyddiant. Mae cyfleoedd cyson i ddisgyblion werthuso eu gwaith a gwaith disgyblion eraill. Mae hyn yn sicrhau bod disgyblion, yn gynnar iawn, yn deall pa mor dda maent yn ei wneud ac yn gwybod Mae cyfleoedd cyson i ddisgyblion werthuso eu gwaith a gwaith disgyblion eraill. Mae hyn yn sicrhau bod disgyblion, yn gynnar iawn, yn deall pa mor dda maent yn ei wneud ac yn gwybod sut i wella eu gwaith.
Ysgol 2 Ionawr 2019	RHAGOROL O'r dyddiau cyntaf yn y dosbarth Meithrin, mae'r bron pob disgybl yn datblygu fel dysgwyr hyderus ac annibynnol. Erbyn diwedd Blwyddyn 6 mae bron pob disgybl yn wynebu tasgau heriol gyda dycnwch ac yn esbonio'n glir sut mae adborth gan gyfoedion, athrawon a rheini yn eu helpu i wella.	RHAGOROL Mae bron pob athro yn fodelau rôl effeithiol ac maent yn cefnogi disgyblion yn effeithiol i ddatblygu agweddau cryf at ddysgu. Mae systemau cryf yn yr ysgol i gynnwys disgyblion yn llawn yn eu dysgu a'u helpu i ddeall sut i wella. Mae athrawon yn helpu disgyblion i wneud cynnydd da mewn gwersi drwy wirio eu dealltwriaeth a chywiro camsyniadau'n sensitif.
Ysgol 3 Ionawr 2019	DA Mae disgyblion yn gweithio'n dda yn unigol, mewn parau a grwpiau. Maent yn barod i drafod eu gwaith gyda chymheiriaid ac yn gwneud hyn yn effeithiol. O ganlyniad mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn parchu cyfraniadau eraill ac yn ymateb yn bositif i'w syniadau.	DA Mae athrawon ar draws yr ysgol yn defnyddio ystod o ddulliau addysgu llwyddiannus, sy'n cael effaith gadarnhaol ar ddisgyblion. Maent yn defnyddio strategaethau Asesu ar gyfer Dysgu yn llwyddiannus fel rhan greiddiol o'u haddysgu. Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn rhoi adborth synhwyrol i ddisgyblion. Mae hyn yn galluogi disgyblion i adnabod yn glir sut i wella eu gwaith.

Ysgol 4 Chwefror 2019	DA Mae rhan fwyaf y disgyblion yn dangos lefelau da o gymhelliant, diddordeb a balchder yn eu gwaith. Mae hynny'n cyfrannu'n llwyddiannus at yr ethos o ddysgu effeithio sy'n bodoli o fewn yr ysgol.	DA Mae gan athrawon ddisgwyliadau uchel iawn ac maent yn defnyddio holi penagored yn llwyddiannus iawn er mwyn annog disgyblion i feddwl drostynt eu hunain. O ganlyniad mae disgyblion yn hyderus i fentro ac i ymgymryd â thasgau'n frwdfrydig ac annibynnol.
Ysgol 5 Chwefror 2019	DA Mae llawer o ddisgyblion yn dangos lefelau da o ddyfalbarhad a dycnwch. Mae ha ddisgyblion hŷn ddealltwriaeth gadarn o'r hynny mae angen iddynt ei wneud i wella eu gwaith. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymwybodol o'u targedau ar gyfer gwella, a'r strategaethau y byddent yn eu defnyddio i gyflawni'r rhain.	DA Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn rhoi adborth defnyddiol i ddisgyblion ar ansawdd eu gwaith, Mae disgyblion yn ymateb yn dda i'r sylwadau hyn er enghraifft drwy ddefnyddio pinnau ysgrifennu (porffor) i ail ddrafftio adrannau o'u hysgrifennu. Mae llawer o athrawon yn defnyddio adborth cyfoedion a meini prawf llwyddiant yn bwrpasol i annog disgyblion i asesu eu gwaith eu hunau a gwaith eraill yn adeiladol . O ganlyniad , mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion ddealltwriaeth glir o 'r hyn y maent yn ei wneud a pha agweddau o'u gwaith i'w gwella.
Ysgol 6 Mawrth 2019	DA Mae'r rhan fwyaf yn canolbwyntio am gyfnodau priodol i'w hoed a gallu. Maent yn datblygu medrau dyfalbarhad wrth wynebu anawsterau yn hyderus. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn gweithio'n aeddfed ac yn sylweddoli pwysigrwydd ymateb i adborth wrth geisio gwella eu gwaith.	DA Ar draws yr ysgol, mae'r staff yn sbarduno'r disgyblion i weithio'n gydwybodol, i ddyfalbarhau gyda'u tasgau ac i ddatblygu meddylfryd o dwf. O ganlyniad mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd da, beth bynnag fo'u gallu Mae'r athrawon yn rhannu nodau eglur ar gyfer gwersi, ac o'r cychwyn yn y dosbarth meithrin, yn rhannu meini prawf llwyddiant gyda'r disgyblion er mwyn adeiladu eu gallu i werthuso eu gwaith eu hunain, a mesur eu llwyddiant. Maent yn cynllunio cyfleoedd i'r disgyblion ddatblygu eu meini prawf llwyddiant eu hunain ac o ganlyniad, mae'r rhan fwyaf yn deall sut i werthuso eu gwaith yn erbyn meini prawf penodol. Mae'r staff yn darparu adborth llafar cyson ac effeithiol i'r disgyblion ac yn rhoi cyfleoedd gwerthfawr iddynt ymateb i adborth ysgrifenedig. Rhoddir cyfleoedd effeithiol a rheolaidd i ddisgyblion ar draws yr ysgol fyfyrio ar adborth, ac i werthuso gwaith cymar yn erbyn meini prawf penodol. O ganlyniad, mae gan ran fwyaf y disgyblion ddealltwriaeth gadarn o'r hyn sydd angen iddynt wneud i wella eu gwaith.

Ysgol 7 Mawrth 2019	RHAGOROL Drwy gyfrannu at gynllunio themâu creadigol ac ymarferol mewn meysydd ar draws y cwricwlwm, mae rhan fwyaf y disgyblion yn cael eu hymrwymo a'u cymell yn llwyddiannus i'w dysgu. Trwy ddefnyddio amrywiaeth o strategaethau effeithiol, mae bron pob disgybl yn meddu ar rai o'r medrau hanfodol ar gyfer dysgu'n effeithiol ac yn dangos parodrwydd i fynd i'r afael â phrofiadau newydd. Mae'r disgyblion yn rhagori wrth gefnogi ei gilydd. Adlewyrchir hyn yn eu hymateb brwdfrydig i'r strategaeth 'tri cyn fi' sy'n eu cymell i weithio'n annibynnol ac i awgrymu ffyrdd gwahanol o ddatrys problemau neu wella eu gwaith i'w cyfoedion. O ganlyniad, maent yn datblygu i fod yn ddysgwyr uchelgeisiol, awyddus a hyderus. Mae bron pob disgybl yn sylweddoli pwysigrwydd dyfalbarhau, a bod gwneud camgymeriadau yn rhan naturiol o'r broses ddysgu. O oed cynnar, mae gan ran fwyaf y disgyblion ddealltwriaeth dda o sut i wella eu gwaith. Ar frig yr ysgol, maent yn dangos aeddfedrwydd wrth arfarnu'r hyn maent wedi ei gyflawni ac i adnabod yr hyn sydd angen iddynt ei wneud i symud eu dysgu ymlaen.	RHAGOROL Trwy gynnwys llais eu disgyblion yn y cynllunio, mae athrawon yn darparu cyfleoedd gwerthfawr iddynt chwarae rôl weithredol wrth lywio eu dysgu. Mae hyn yn sicrhau bod rhan fwyaf y disgyblion yn adeiladu'n llwyddiannus ar brofiadau dysgu blaenorol ac yn cryfhau eu hymglymiad i'w gwaith yn effeithiol iawn. Defnyddir amrediad o weithgareddau dychmygus a heriol sy'n magu annibyniaeth ymysg disgyblion yn effeithiol iawn. O ganlyniad, mae'r disgyblion yn hyderus i fentro ac i feddwl drostynt eu hunain. Mae athrawon yn gwneud defnydd effeithiol iawn o amrywiaeth o ddulliau addysgu llwyddiannus sy'n sicrhau bod bron bob disgybl yn ymgymryd yn llwyr â'u dysgu. Mae gan athrawon ddisgwyliadau uchel iawn. Maent yn holi'n fedrus er mwyn ymestyn dealltwriaeth a gwybodaeth y disgyblion, ac ar adegau yn eu herio i feddwl a rhesymu eu hatebion ar lefel uwch. Maent yn defnyddio holi penagored yn llwyddiannus iawn er mwyn annog y disgyblion i feddwl yn annibynnol. Mae'r athrawon yn cynnig adborth cadarn i ddisgyblion er mwyn iddynt wneud gwelliannau a datblygu eu gwaith ymhellach. Mae staff yn ymyrryd yn sensitif i gynorthwyo disgyblion ar adegau priodol yn ystod y wers, er enghraifft i'w hannog i wirio eu cynnydd yn erbyn amcanion gwersi a'r meini prawf llwyddiant. Rhoddir cyfleoedd rheolaidd i ddisgyblion fyfyrio ar eu gwaith a gwneud gwelliannau.
Ysgol 8 Mawrth 2019	DA Mae gan lawer o ddisgyblion, ar draws yr ysgol agweddau cadarnhaol tuag at ddysgu. Mae gan lawer o ddisgyblion ddealltwriaeth briodol o beth sydd angen ei wneud i wella eu gwaith. Maent yn dechrau arwain eu dysgu eu hunain trwy ddewis heriau sy'n ymwneud â'r themâu tymhorol. O ganlyniad, mae llawer o'r disgyblion yn datblygu'n foddhaol i fod yn ddysgwyr annibynnol.	DA Ar draws yr ysgol, mae'r athrawon yn rhannu amcanion dysgu a meini prawf llwyddiant y gweithgareddau yn effeithiol gyda'r disgyblion. Mae rhan fwyaf yr athrawon yn gwneud defnydd effeithiol o ystod o weithdrefnau asesu ar gyfer dysgu. Maent yn rhoi cyfleoedd da i'r disgyblion asesu eu gwaith eu hunain, sydd yn cryfhau eu dealltwriaeth o sut i wneud gwelliannau. Mae adborth yr athrawon yn dathlu llwyddiannau'r disgyblion ac yn dangos iddynt sut i wella'u gwaith yn adeiladol.

Ysgol 9 Mawrth 2019	DA Mae parodrwydd y rhan fwyaf i drafod eu gwaith a chydweithio'n llwyddiannus â'u cyfoedion yn nodwedd gadarn ymysg disgyblion. O ganlyniad, maent yn dangos parch tuag at gyfraniadau eraill ac yn ymateb yn gadarnhaol i'w syniadau.	DA Maent yn cynllunio themâu diddorol sy'n hybu'r dysgu ac yn ategu at wybodaeth a dealltwriaeth y disgyblion yn llwyddiannus. Maent yn cynnwys syniadau disgyblion yn ystyrlon wrth gynllunio gwersi difyr, sy'n cynnal eu diddordeb a'u cymell i lwyddo. Mae'r defnydd effeithiol a wneir o fapiau meddwl yn cryfhau perchnogaeth y disgyblion o'u gwaith. Llwydda bron pob un o'r athrawon i wneud eu dosbarthiadau yn lleoedd ysgogol a difyr lle gall bron pob grŵp o ddisgyblion ddysgu'n gynhyrchiol.
Ysgol 10 Mawrth 2019	RHAGOROL Mae gan bron pob disgybl ddealltwriaeth gadarn o'r hyn sydd angen iddynt ei wneud i wella eu gwaith ac maent yn cyfrannu'n gadarnhaol tuag at gefnogi a gwella dysgu ei gilydd. Mae agweddau'r disgyblion at eu dysgu a'u gallu i ddefnyddio eu medrau dysgu annibynnol yn nodweddion rhagorol.	RHAGOROL Mae'r addysgu yn effeithiol iawn ymhob dosbarth. Nodwedd arbennig yw 'r ffordd mae disgyblion yn dewis y themâu yr hoffent ei ddysgu gyda'r athrawon yn adeiladu ar eu syniadau yn grefftus iawn. Mae strategaethau asesu ar gyfer dysgu wedi eu sefydlu'n gadarn drwy'r ysgol. Darperir cyfleoedd cynyddol i ddisgyblion fyfyrio ar eu dysgu eu hunain ac ar ymdrechion eu cyfoedion, ac i gyfrannu'n effeithiol at y broses o osod lefelau her eu hunain. Mae'r elfen hon o waith yr ysgol yn gryfder ac yn cyfrannu'n llwyddiannus at gynnydd a chyflawniad y disgyblion.
Ysgol 11 Ebrill 2019	DA. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn dangos ymagweddau cadarnhaol tuag at eu dysgu. Maent yn dangos lefelau uchel o gymhelliant, diddordeb a balchder yn eu gwaith, ac yn gwneud penderfyniadau rheolaidd am sut a beth y maent yn ei ddysgu. Mae llawer o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn ymroi i'w tasgau yn ddiwyd, ac yn cydweithio'n gytûn.	DA Lle mae'r addysgu ar ei orau, mae gan athrawon ddisgwyliadau uchel iawn ac maent yn defnyddio holi penagored yn llwyddiannus iawn er mwyn annog disgyblion i feddwl drostynt eu hunain. O ganlyniad, mae'r disgyblion yn hyderus i fentro ac i ymgymryd â'r tasgau yn frwdfrydig ac yn annibynnol. Yn ddiweddar, mae'r ysgol wedi cryfhau'r defnydd o strategaethau asesu ar gyfer dysgu. Mae rhan fwyaf yr athrawon yn cynnig adborth gwerthfawr i'r disgyblion yn ystod gwersi ac yn eu hannog i ddyfalbarhau a myfyrio ymhellach ar sut i wella eu gwaith.

Ysgol 12 Mai 2019	RHAGOROL Mae safon lles ac agwedd bron pob disgybl tuag at ddysgu yn ardderchog. Mae bron pob disgybl yn meddu ar rai o'r medrau hanfodol ar gyfer dysgu'n effeithiol ac maent yn dangos parodrwydd i fynd i'r afael â phrofiadau newydd yn syth. Maent yn mwynhau cael eu herio ac yn gweithio'n dda yn annibynnol, gan arddangos lefel uchel o ddyfalbarhad. Enghraifft wych o hyn yw'r defnydd naturiol a wna'r disgyblion o'r pwerau dysgu a'r dyffryn dysgu wrth drafod sut mae gwneud camgymeriadau yn rhan annatod o'u dysgu. O ganlyniad, mae bron pob un yn dangos lefelau uchel o gymhelliant, diddordeb a balchder yn eu gwaith ac yn datblygu'n ddysgwyr uchelgeisiol, hyderus ac annibynnol. Un o gryfderau'r ysgol yw'r ffordd aeddfed y mae bron pob disgybl yn lleisio'u barn ar yr hyn maent yn ei ddysgu, gan gynnwys dewis themâu Maent yn aml yn dewis lefel yr her y maent yn ei dilyn mewn tasgau penodol ac yn esbonio'r rhesymau dros hynny. Mae bron pob disgybl yn ymateb yn gadarnhaol iawn i'r adborth adeiladol mae'r athrawon yn ei roi iddynt. O oed cynnar, mae gan y rhan fwyaf ohonynt ddealltwriaeth dda iawn o'u gallu personol ac o sut y gallent ddatblygu a gwella'u gwaith ymhellach. Erbyn Blwyddyn 6, mae rhan fwyaf y disgyblion yn dangos aeddfedrwydd arbennig wrth arfarnu'r hyn maent wedi ei gyflawni ac adnabod yr hyn sydd angen iddynt ei wneud i wella eu gwaith.	RHAGOROL Mae athrawon yn defnyddio amrywiaeth o dechnegau'n fedrus i sicrhau ymglymiad parod bron pob disgybl. Mae hyn yn arwain at gydweithio effeithiol iawn a datblygu brwdfrydedd ac awch y disgyblion tuag at ddysgu. Mae athrawon yr ysgol yn defnyddio amrywiaeth o ddulliau addysgu effeithiol, ac yn cysylltu eu gwersi'n fedrus â dysgu blaenorol. Maent yn holi'n fedrus i ymestyn dealltwriaeth a gwybodaeth y disgyblion er mwyn eu herio i feddwl a rhesymu eu hatebion ar lefel uwch. O ganlyniad, mae'r disgyblion yn hyderus i fentro ac i ymgymryd â'r tasgau'n frwdfrydig ac yn annibynnol. Mae strategaethau asesu ar gyfer dysgu wedi gwreiddio'n effeithiol iawn ac yn cael effaith gadarnhaol iawn ar ddysgu a chynnydd bron pob disgybl. Mae'r athrawon yn cynnig adborth cadarn i ddisgyblion er mwyn iddynt wneud gwelliannau a datblygu eu gwaith ymhellach. Rhoddir cyfleoedd rheolaidd i ddisgyblion fyfyrio ar eu gwaith a gwneud gwelliannau. Mae athrawon yn ymyrryd yn sensitif i gynorthwyo disgyblion ar adegau priodol yn ystod gwersi, er enghraifft i'w hannog i wirio eu cynnydd yn erbyn amcanion gwersi a'u targedau personol ac i ddefnyddio'r wal weithio fel arf i wella eu gwaith. O ganlyniad, erbyn Blwyddyn 6, mae bron pob disgybl yn gwybod yn dda iawn am ei ddatblygiad fel dysgwr, yn cymryd cyfrifoldeb dros ei waith a'i gynnydd ac yn gallu trafod hyn yn hyderus.
Ysgol 13 Mai 2019	RHAGOROL Nodwedd eithriadol o waith yr ysgol yw'r modd y mae rhan fwyaf y disgyblion yn dyfalbarhau â'u tasgau ac yn awyddus i 'ddal ati' nes iddynt lwyddo. Mae bron pob disgybl yn sylweddoli bod gwneud camgymeriadau yn rhan naturiol o'r broses ddysgu ac, o ganlyniad, maent yn fodlon iawn i 'roi cynnig arall arni' er mwyn llwyddo. Yn aml, wrth fyfyrio gyda'u partneriaid trafod, maent yn nodi a datblygu syniadau newydd yn dda sy'n gysylltiedig â'r pwnc dan sylw	RHAGOROL Mae ansawdd yr addysgu'n gyson gadarn ar draws yr ysgol, gyda'r staff yn sefydlu perthynas waith effeithiol iawn gyda'r disgyblion ac yn darparu amgylchedd ddysgu gefnogol ac effeithiol iddynt Maent yn eu holi'n fedrus er mwyn ymestyn dealltwriaeth a gwybodaeth y disgyblion yn llwyddiannus, ac ar adegau yn eu herio i feddwl a rhesymu eu hymatebion ar lefel uchel. Mae'r athrawon yn rhoi adborth llafar amserol a defnyddiol i'r disgyblion ac yn darparu sylwadau ysgrifenedig gwerthfawr iddynt er mwyn eu

	Maent yn awyddus i archwilio pethau newydd ac i gymryd rhan weithredol mewn amrywiol weithgareddau. Er enghraifft, mae rhan fwyaf y disgyblion yn manteisio'n dda ar y cyfle i gynnig syniadau synhwyrol am y mathau o dasgau yr hoffent eu gwneud fel rhan o'u gwaith ar ddechrau pob thema benodol. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf yn cydweithio'n effeithiol, yn trafod yn aeddfed, gan ddangos parch at deimladau a chyfraniadau eu cyd-ddisgyblion, ac yn datblygu perchnogaeth gynyddol am gynnwys eu gwaith.	cynorthwyo'n briodol i wybod sut i wella eu gwaith ymhellach. Mae athrawon yn cyd-gynllunio'n effeithiol ac yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i'r disgyblion ddatblygu medrau amrywiol mewn ystod o gyd-destunau diddorol. Nodwedd dda yw'r ffordd mae athrawon yn cynllunio gweithgareddau sy'n deillio o drywyddau ymholi a osodwyd gan y disgyblion eu hunain. Mae hyn yn cyfrannu'n llwyddiannus at ddatblygu medrau dysgu annibynnol y disgyblion ynghyd â rhoi perchnogaeth iddynt dros eu dysgu.
Ysgol 14 Mai 2019	RHAGOROL Mae bron pob disgybl yn cydweithio'n arbennig o dda gyda'u cyfoedion mewn grwpiau ac mewn parau a yn dangos lefel uchel o aeddfedrwydd a pharch at farn eraill. Mae defnydd effeithiol o dechnegau hybu meddylfryd o dwf a phartneriaid parablu, yn galluogi'r disgyblion i gefnogi ei gilydd yn hynod effeithiol. Mae hyn yn cyfrannu'n sylweddol at ddatblygu'r disgyblion i fod yn ddysgwyr mentrus a hyderus iawn. Maent bob amser yn barod i ddysgu ac yn arddangos lefel arbennig o annibyniaeth. O oed cynnar, mae llawer o'r disgyblion yn datblygu dealltwriaeth gadarn o'r hyn sydd angen iddynt ei wneud i wella eu gwaith.	RHAGOROL Or cychwyn cyntaf , mae pwyslais ar gynllunio gweithgareddau sydd yn sicrhau bod disgyblion yn datblygu gwydnwch a dyfalbarhad wrth gyflawni eu gwaith. Un o cryfderau amlwg y cynllunio yw'r modd y maent yn adeiladu 'n gelfydd ar waith blaenorol a sicrhau dilyniant a pharhad ym medrau dysgu annibynnol y disgyblion wrth iddynt symud drwy'r ysgol Mae strategaethau asesu ar gyfer dysgu wedi eu sefydlu'n gadarn drwy'r ysgol. Rhoddir adborth adeiladol llafar ac ysgrifenedig i ddisgyblion. Darperir cyfleodd buddiol i ddisgyblion fyfyrio ar eu dysgu ei hunain a'u cyfoedion ac i gyfrannu'n effeithiol at broses o osod targedau ar gyfer gwella'u gwaith. Mae'r elfen hon yn gryfder yn yr ysgol ac yn cyfrannu'n llwyddiannus at gynnydd a chyflawniad disgyblion.
Ysgol 15 Mehefin 2019	RHAGOROL Maent yn ddysgwyr brwdfrydig sy'n cydweithio'n arbennig o effeithiol gyda'u cyfoedion mewn grwpiau ac mewn parau ac maent yn dangos lefel uchel o aeddfedrwydd a pharch at farn eraill. O ganlyniad mae bron pob disgybl yn cymryd perchnogaeth dda am eu dysgu ac yn dod yn gynyddol ymwybodol o'r hyn sydd angen iddynt ei wneud i wella eu gwaith eu hunain.	DA Mae strategaethau asesu ar gyfer dysgu wedi eu sefydlu'n gadarn drwy'r ysgol. Rhoddir adborth llafar ac ysgrifenedig adeiladol i ddisgyblion er mwyn iddynt ddeall yr hyn sydd angen iddynt ei wneud er mwyn gwella safon eu gwaith, Darperir cyfleoedd fuddiol i ddisgyblion fyfyrio ar eu dysgu eu hunain a'u cyfoedion i gyfrannu'n effeithiol at y broses o osod targedau ar gyfer gwella'u gwaith.

Ysgol 16 Mehefin 2019	RHAGOROL Mae gweithredu ar lais y disgybl yn un o brif rinweddau'r ysgol. Wrth wynebu heriau newydd maent yn defnyddio unrhyw wybodaeth berthnasol sydd eisoes ganddynt i'w cynorthwyo mewn cyd-destunau gwahanol, gan gynnwys gweithio gyda'u partneriaid parablu. Maent yn ddysgwyr hyderus sy'n hapus i roi cynnig ar dasgau heb ofni bod yn anghywir. Mae'r rhan fwyaf yn ymwybodol o'u targedau ar gyfer gwella ac yn rhoi ystyriaeth iddynt wrth gwblhau eu tasgau dyddiol.	DA Mae strategaethau asesu ar gyfer dysgu wedi gwreiddio'n dda yn yr ysgol. Maent yn amrywio eu dulliau o holi n gelfydd i ganfod yr hyn mae'r disgyblion yn ei ddeall ac i symud eu dysgu ymlaen yn llwyddiannus. Mae'r holl athrawon yn rhannu Meini prawf llwyddiant yn glir gyda'r disgyblion sy'n sicrhau eu bod yn deall yr hyn sydd angen iddyn ei wneud er mwyn llwyddo.
Ysgol 17 Mehefin 2019	DA Mae gan bron pob disgybl agwedd gadarnhaol at ddysgu ac maent yn dangos parodrwydd i ddysgu. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gweithio'n gynhyrchiol fel unigolion, mewn parau a grwpiau. Maent yn ymroi yn bwrpasol i brofiadau newydd gyda brwdfrydedd.	DA Mae'r berthynas waith gefnogol rhwng staff a disgyblion, sy'n amlwg ym mhob dosbarth, yn meithrin parch a chwrteisi, ac yn creu amgylchedd dysgu cynhyrchiol. Mae ffocws yr athro ar ddarparu cyfleoedd i ddisgyblion gymryd cyfrifoldeb am eu dysgu eu hunain yn datblygu arferion dysgu cadarnhaol yn effeithiol.
Ysgol 18 Gorffennaf 2019	RHAGOROL Gydag ychydig iawn o eithriadau, mae disgyblion ledled yr ysgol yn dangos agweddau rhagorol tuag at eu dysgu. Mae pob disgybl yn cyfrannu at benderfynu beth maen nhw am ei ddysgu, mae hyn yn cael effaith sylweddol ar hunan-barch a brwdfrydedd disgyblion dros ddysgu. O ganlyniad mae bron pob un yn ddysgwyr annibynnol aeddfed, uchelgeisiol. Nid ydynt yn ofni mentro ac maent yn dyfalbarhau i herio eu hunain.	DA Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn meithrin amgylchedd dysgu diogel yn eu hystafell ddosbarth, lle mae parch at ei gilydd rhwng disgyblion a'r athro yn gwbl amlwg. Mae hyn yn cyfrannu'n llwyddiannus tuag at greu ac amgylchedd lle mae disgyblion yn derbyn y cyfrifoldeb i weithio'n galed, gwneud eu gorau a theimlo'n rhydd i geisio heb ofni gwneud camgymeriad. O ganlyniad, mae disgyblion yn barod i ddysgu o'u camgymeriadau a ymateb yn effeithiol, ar lafar ac yn ysgrifenedig, i adborth defnyddiol gan athrawon. Mae oedolion yn ymyrryd mewn dysgu ar adegau priodol i ddarparu cefnogaeth ond nid ydynt yn ymyrryd â dysgu yn ddiangen. Maent yn hyrwyddo annibyniaeth disgyblion yn llwyddiannus.